Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# Cynllun Ardal Ar Gyfer y Rhanbarth

# 2023 – 2028

“Cydweithio i greu Gwent Iachach, i gael y gofal a’r cymorth iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn”

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

## Rhagair



Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu'r Cynllun Ardal hwn yn ystod cyfnod o heriau eithafol a gofynion digynsail. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector dal i fod yn adfer yn dilyn pandemig Covid-19 a'i effaith anferthol ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, sydd, wedi cael ei lethu gan y cynnydd diweddar mewn costau byw a thoriadau i gyllidebau. Rydym yn symud ymlaen o un o'r gaeafau anoddaf, pan, ar y 27 Rhagfyr 2022, fe wynebodd y GIG y diwrnod prysuraf yn y 70 mlynedd ers ei sefydlu. Mae hefyd yn dynodi'r heriau i ofal cymdeithasol a'r gymuned.

Mae'r heriau'n tynnu sylw at yr angen i bartneriaid ddod at ei gilydd i gydweithio mwy nag erioed, i greu elfen o synergedd ar draws y gwasanaethau, ac osgoi dyblygu. Bydd y BPRh yn ganolog o ran o greu'r bartneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Bydd y Cynllun Ardal yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cydweithio, cyfuno adnoddau a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'n bwysig mabwysiadu'r holl egwyddorion gweithio, ond bydd integreiddio gwasanaethu a chynyddu capasiti cymunedau, o ystyried yr heriau y crybwyllwyd yn flaenorol, yn flaenoriaeth allweddol. Mae'n galw am ffocws sylweddol i gefnogi agenda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef '*Ymhellach a Chyflymach'*.

Rydym yn angerddol dros wella a chreu'r canlyniadau iechyd a lles gorau i bobl Gwent a chanolbwyntio ar bobl ym mhopeth y gwnawn. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymunedau i gyd gynhyrchu gwasanaethau gofal a chymorth i sicrhau bod pobl yn teimlo bod rhywun yn eu cefnogi ac yn gwrando arnynt. Gwyddwn fod dod o hyd i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth iawn yn bwysig ac rydym am i bobl yng Ngwent gael hyd i'r gwasanaethau iawn, ar yr adeg iawn a theimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u cefnogi.

Drwy'r Cynllun Ardal byddwn hefyd yn cysoni camau â sbardunau strategol eraill fel Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, BIPAB CTCI a chynlluniau BPSI. Byddwn yn osgoi dyblygu ac yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau i gyflawni polisïau cenedlaethol.

Mae'r BPRh yn bartneriaeth gydsyniol ac nid oes ganddo bwerau gweithredol, felly mae'n hollbwysig bod yr holl bartneriaid yn cytuno ar y blaenoriaethau, camau gweithredu a'r gwasanaethau a ddarperir, gan gyfuno adnoddau a lleihau ffiniau sefydliadol i rannu'r risg a sicrhau bod y bartneriaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Fel Cadeirydd y BPRh, byddaf yn sicrhau bod pob partner yn canolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Ardal a'r cynlluniau gweithredu sylfaenol i sbarduno trawsnewid gwasanaethau sy'n gweithio, gan fonitro cynnydd y cynlluniau yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn canfod arfer da a chreu elfen o synergedd ar draws y partneriaethau.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

**Ann Lloyd, CBE – Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent**



Mae'n rhagorol gweld ein hymgynghoriadau a'n sgyrsiau gydag aelodau a'r rheini a ddaeth i'n cyfarfodydd, yn cael eu hadlewyrchu yn ein Cynllun Ardal newydd i ranbarth Gwent. Cawsom flwyddyn brysur iawn, yn bennaf ar lein ers y pandemig, ond rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r cynrychiolwyr a gwrando ar y nifer o faterion allweddol y mae ein poblogaeth yn eu hwynebu. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd dros ben i nifer o'n poblogaeth ac aelodau staff ein sefydliadau sydd wedi wynebu profiadau llafurus yn ceisio ein cadw ni gyd yn ddiogel. Hoffem ddiolch iddynt am eu hymrwymiad a'u hymroddiad na wnawn fyth ei anghofio.

Rydym bob amser yn ymdrechu'n galed i gynnwys pob llais a chroesawu unrhyw ddinasyddion newydd sydd am ymuno â ni i gyfrannu'u barn a'u profiadau. Mae'r cyfle i holi cwestiynau i uwch aelodau ein gwasanaethau cyhoeddus sydd ar y llwybr i integreiddio gwasanaethau, yn unigryw i Gymru ac yn ein hardal yng Ngwent. Gwelwn ganlyniadau gweithio'n agosach o lawer rhwng yr awdurdodau lleol hynny a'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau mwy clir ac integredig bob blwyddyn. Edrychwn ymlaen at weithio gydag aelodau'r BPRh a monitro'r gweithgareddau a'r gwasanaethau sy'n effeithio ar bob un ohonom.

Ar ran Panel Dinasyddion Gwent, diolch i bawb a gyfrannodd at y Cynllun. Edrychwn ymlaen at weld y strategaethau a'r amcanion yn y Cynllun hwn yn trawsnewid i fod yn ganlyniadau da i ni gyd.

**Lorraine Morgan – Cadeirydd Panel y Dinasyddion**

Mae CGT a GAVO yn aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ein rôl ar y cyd yw adlewyrchu barn y sefydliadau sy'n aelodau a'r Trydydd Sector ehangach yr ydym yn ei chynrychioli.

Cawsom ein cynnwys a buom yn rhan o ddatblygiad Cynllun Ardal ar gyfer y Rhanbarth. Buddsoddwyd llawer iawn o amser ac ymrwymiad yn y Cynllun Ardal ar gyfer y Rhanbarth a chyrraedd y man ymgynghori. Mae derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad a chasglu a chydnabod ystod eang o safbwyntiau yn hollbwysig i lwyddiant y cynllun.

**Stephen Tiley – Prif Weithredwr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) ac**
**Anne Evans – Swyddog Gweithredol Strategol, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA)**

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | **4** |
| Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Egwyddorion Gweithio | 4 |
| Egwyddorion Marmot | 5 |
| Yr Heriau Rhanbarthol wrth Weithio mewn Partneriaeth | 6 |
| Ein Gweledigaeth | 6 |
| Gofynion a Disgwyliadau'r Cynllun Ardal | 7 |
| Sut y mae'r BPRh a'r Cynllun Ardal yn Cyd-fynd â Phartneriaethau Strategol, Cynlluniau a Pholisïau Cenedlaethol eraill | 8 |
| Ymgysylltu a Chyd-gynhyrchu | 9 |
| Sut y Bydd y BPRh yn Ymateb | 10 |
| Canlyniadau'r Cynllun Ardal | 12 |
| Llywodraethu, Sicrwydd a Monitro'r Cynllun Ardal | 17 |
| Hwb Cydlynu Ymchwil/Arloesi | 19 |
| **Cefndir Strategol** | **20** |
| Asesiad o Anghenion y Boblogaeth | 20 |
| Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a'r Strategaeth Gomisiynu | 21 |
| Cynllun Cyfalaf Strategol | 22 |
| Y Ddeddf Cydraddoldeb a Gwaith â Ffocws gyda Grwpiau Lleiafrifol | 22 |
| Egwyddorion Rhanbarthol a Fabwysiadwyd i Gyflawni Adrannau'r Cynllun Ardal | 23 |
| Gweithio mewn Partneriaeth | 24 |
| Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth | 27 |
| **Gweithio Mewn Modd Integredig** | **27** |
| Integreiddio Gwasanaethau – Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 27 |
| Datblygu System Gofal a Llesiant Integredig i Went | 29 |
| Cyllid Integredig Rhanbarthol a Modelau Gofal | 29 |
| Partneriaethau Ardal – 'Cyfrwng Cyflawni, Sbardunau Newid' | 30 |
| **Cynlluniau Gweithredu'r Themâu Craidd** | **32** |
| *i. Awtistiaeth* | 32 |
| *ii. Gofalwyr* | 36 |
| *iii. Plant a Phobl Ifanc* | 40 |
| *iv. Dementia* | 45 |
| *v. Iechyd, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau* | 51 |
| *vi. Tai* | 59 |
| *vii. Cydgomisiynu (Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad)* | 62 |
| *viii. Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu* | 66 |
| *ix. Pobl Hŷn* | 74 |
| *x. Y Gweithlu* | 81 |
| **Atodiad 1:** Atodiad 1: Sbardunau Polisi a'r Gwaith Presennol (Mawrth 2023) | |
| **Atodiad 2:** Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Phartneriaethau Strategol eraill | |
| **Atodiad 3:** Dyfodol Clinigol BIPAB a System Llesiant Integredig | |
| **Atodiad 4:** Gweithrediad Rheoli Perfformiad/Llif y Broses | |
| **Atodiad 5:** Egwyddorion Gweithio Llywodraeth Cymru, Cynlluniau Gweithredu ac Acronymau | |
| **Atodiad 6:** Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019- Trefniadau Amddiffyn Rhyddid | |
| **Atodiad: 7:** Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol | |

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

**RHAGARWEINIAD**

**<u>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol  Gwent (BPRh)</u>**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth. Mae angen i'r BPRh weithio gyda phartneriaid ehangach fel y trydydd sector a darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth ar waith i ddiwallu anghenion eu poblogaethau priodol, a hynny yn y ffordd orau.

Mae BPRh Gwent yn cynnwys awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB). O dan adran 14A, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'n ofynnol i'r BPRh lunio a gweithredu cynlluniau (Cynllun Ardal) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol sy'n dod o dan ymbarél y Bwrdd.

**<u>Egwyddorion Gweithio</u>**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhannu egwyddorion tebyg â nifer o strategaethau a deddfwriaethau cenedlaethol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y deddfau yw'r amser y cawsant eu llunio. Mae'r Cynllun Ardal dan y Ddeddf yn adlewyrchu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB) sy'n cwmpasu cyfnod o 3-5 blynedd yn seiliedig ar y cylch etholiadol. Mae'r Asesiad Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cwmpasu cyfnod hirach.

<table>
<tr><th>Egwyddorion y Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</th><th>Egwyddorion Cynaliadwy: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</th></tr>
<tr><td>Bydd gwasanaethau'n hyrwyddo atal yr angen rhag dwysau a sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn</td><td>Atal: Sut mae gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Mae Partneriaeth a chydweithredu yn sbarduno'r gwasanaethau a ddarperir</td><td>Cydweithio: Sut gallai cydweithio gydag unigolyn arall neu unrhyw ran arall o sefydliad helpu i ddiwallu amcanion llesiant</td></tr>
<tr><td>Integreiddio: Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar amcanion llesiant, nodau llesiant, amcanion eraill neu'r rheini gan gyrff cyhoeddus eraill</td></tr>
<tr><td>Mae pobl wrth wraidd y system newydd drwy roi cyfle iddynt leisio'u barn yn deg am y cymorth maen nhw'n ei dderbyn.</td><td>Cynnwys: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau lleol.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Mae'r Ddeddf yn cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i sicrhau eu lles | Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor |

Mae'r egwyddor llesiant yn rhan ganolog o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chyfeiria at lesiant emosiynol, corfforol a llesiant cymdeithasol unigolyn sydd angen gofal a chymorth. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ganfod a chreu newidiadau sylweddol yn y ffordd yr ydym yn cynllunio, comisiynu a darparu gofal, i sicrhau ein bod yn adeiladu ar fodelau gwaith arloesol sydd eisoes yn mynd rhagddynt, ac yn atgyfnerthu dulliau sy'n seiliedig ar asedau i atgyfnerthu ein gwaith o ran:

- **Ymgysylltu â dinasyddion**– i sicrhau ein bod yn clywed llais dinasyddion, am mai nhw yw'r arbenigwyr yn nhermau eu hanghenion gofal a chymorth.
- **Gofalwyr sydd angen cefnogaeth** – i gydweithio fel partneriaid cyfartal.
- **Atal ac ymyrraeth gynnar**.
- **Hyrwyddo llesiant** er mwyn oedi ac atal i'r angen i ddarparu gofal a chymorth ddwysau.
- **Cyd gynhyrchu gwasanaethau a gweithgareddau** – cefnogi arbenigwyr drwy brofiad i rannu pŵer a chydweithio fel partneriaid cyfartal.
- Atgyfnerthu ein ffyrdd o weithio fel **sawl asiantaeth a phartneriaeth** ac adeiladu ar hyn i sicrhau bod yr egwyddorion o ran llais a rheolaeth yn cael eu cyflawni drwy gynllunio a gweithredu gwasanaethau.

**Egwyddorion Marmot**

Mae adolygiad diweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB): Gwent Teg i Bawb**,** wedi datgelu bod bywydau pobl sy'n byw mewn rhai rhannau o Went yn darfod yn gynt na'r disgwyl oherwydd anghydraddoldebau yn eu ffyrdd o fyw. Mae'r BPRh yn gweithio ar y cyd i gefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGCG) i helpu i leihau'r anghydraddoldeb er mwyn sicrhau mai Gwent yw'r Rhanbarth Marmot yng Nghymru.

Egwyddorion Marmot

1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolion i fanteisio i'r eithaf ar eu galluoedd a rheoli eu bywydau
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
4. Sicrhau safon byw iach i bawb
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy
6. Atgyfnerthu rôl ac effaith atal salwch.
7. Mynd i'r afael â gwahaniaethu, hiliaeth, a'u canlyniadau.
8. Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol ac iechyd cyfartal ochr yn ochr.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

Yn ôl digwyddiad lansio Marmot yn ddiweddar, canfuwyd bod annhegwch o ran y gwasanaethau a ddarperir, a'r bwlch o 18 mlynedd mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd cyfoethocaf a thlotaf yng Ngwent. Yn y cymdeithasau llai cefnog yn y rhanbarth, mae menywod yn cael bywyd da am 48 o flynyddoedd yn unig. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein partneriaid a'n cymunedau i weithio gyda'i gilydd i wella tegwch ledled Gwent ac o ganlyniad, gwella bywydau cymunedau lleol. Bydd y BPRh yn mynd ati i nodi'n glir lle mae gwaith partneriaethau strategol yn cyfrannu at ddatblygu rhanbarth Marmot, yn ogystal â lle mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu at y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithasol (gweler Atodiad 7).

## Yr Heriau Rhanbarthol wrth Weithio mewn Partneriaeth

Mae'r BPRh wedi datblygu'r Cynllun Ardal hwn yn ystod cyfnod o heriau eithafol a gofynion digynsail. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus dal i fod yn adfer yn dilyn pandemig Covid-19 a'i effaith anferthol ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi cael ei lethu gan y cynnydd diweddar mewn costau byw a thoriadau i gyllidebau. Mae'r heriau'n amlygu'r angen i bartneriaid ddod at ei gilydd i gydweithio mwy nag erioed, i greu elfen o synergedd ar draws gwasanaethau a lleihau dyblygu. Bydd y BPRh yn ganolog i greu'r amgylchedd partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau hyn a bydd y Cynllun Ardal yn nodi sut y bwriadwn gydweithio, cyfuno adnoddau a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'n bwysig mabwysiadu'r holl egwyddorion gweithio, ond mi fydd integreiddio gwasanaethau a chynyddu gallu'r gymuned, o ystyried yr heriau a grybwyllwyd yn flaenorol, yn flaenoriaeth allweddol sy'n galw am drawsnewid sylweddol, i gefnogi agenda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef 'Ymhellach a Chyflymach'.

## Ein Gweledigaeth

***'Cydweithio i greu Gwent Iachach, i gael y gofal a'r cymorth iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn'***

Rydym yn angerddol am wella a chreu'r canlyniadau iechyd a lles gorau i bobl Gwent a rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymunedau i gyd-gynhyrchu gwasanaethau gofal a chymorth i sicrhau bod pobl yn teimlo bod rhywun yn eu cefnogi ac yn gwrando arnynt. Gwyddwn fod dod o hyd i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth gywir yn bwysig ac rydym am i bobl yng Ngwent gael hyd i'r gwasanaethau cywir, ar yr adeg gywir a theimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u cefnogi.

## Gofynion Canllawiau'r Cynllun Ardal

Mae adran 14A, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi gofynion y Cynllun Ardal:

- Y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd mewn perthynas â'r meysydd o flaenoriaeth i'r BPRh.
- Sefydlu achosion a manylion y cronfeydd cyfunol mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth.
- Sut y bydd gwasanaethau'n cael eu caffael neu eu cyflawni, yn cynnwys modelau cyflenwi amgen.
- Manylion y gwasanaethau ataliol fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu.
- Camau sy'n cael eu dilyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Y camau sydd eu hagen i gyflenwi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cynllun Ardal hwn yn nodi ymateb y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i ganfyddiadau adroddiad rhanbarthol yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Cafodd ei baratoi i fodloni gofynion y canllawiau statudol mewn perthynas â Chynlluniau Ardal dan adran 14A Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod disgrifiad o ystod a lefel y gwasanaethau integredig arfaethedig yn cael ei ddarparu neu ei drefnu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir dan bob un o'r themâu craidd, a rhaid iddo gynnwys:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc.
- a Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd.

Bydd y BPRh yn dadansoddi'r ffeithiau yn llawn, a sicrhau bod y Cynllun Ardal yn bodloni anghenion sydd wedi eu nodi yn Fframwaith Strategol y Gymraeg 'Mwy Na Geiriau' gan gyhoeddi Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'r cynllun hwn.

## Disgwyliadau'r Cynllun Ardal

Ni fydd y Cynllun Ardal yn gallu mynd i'r afael â'r holl faterion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ar draws y rhanbarth. Mi fydd yn canolbwyntio ar sawl blaenoriaeth ar y cyd sy'n galw am weithio mewn partneriaeth.

Bydd y Cynllun Ardal yn:

- **Nodi'r canlyniadau a'r blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer gweithio'n rhanbarthol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, darparwyr a'r trydydd sector.**
- **Canolbwyntio ar flaenoriaethau y mae dinasyddion wedi tynnu sylw atynt.**

- **Gosod y mesurau llwyddiant a fydd yn sicrhau atebolrwydd ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth ar y cyd.**
- **Gosod agenda cyffredin ar gyfer cynllunio, dylunio, a darparu gwasanaethau integredig i'r rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth.**
- **Canolbwyntio ar feysydd gwaith ar draws pob un o'r themâu sydd o flaenoriaeth sy'n galw am weithio mewn partneriaeth.**
- **Nodi sut yr eir ati i barhau i gyflawni egwyddorion wrth weithio dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig mewn perthynas ag integreiddio, gweithio er mwyn atal, a gweddnewid.**
- **'Cyfeirio' at gynlluniau gweithredu statudol a ffurfiol eraill pan fydd angen.**

## Sut y mae'r BPRh a'r Cynllun Ardal yn Cyd-fynd â Phartneriaethau Strategol, Cynlluniau a Pholisïau Cenedlaethol eraill

Mae'r BPRh yn cydnabod bod yna bartneriaethau sefydledig yn gweithio ar draws rhanbarth Gwent. Mae'n hollbwysig nad ydym yn dyblygu ymdrechion ond yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau i greu elfen o synergedd ar draws y partneriaid. Mae blaenoriaethau penodol, a nodwyd bod gofyn i'r BPRh arwain y cynllunio ac mae yna flaenoriaethau eraill lle mae sefydliadau eraill mewn sefyllfa well, a rhai blaenoriaethau lle rhennir yr agenda. Bydd y Cynllun Ardal yn amlygu camau allweddol ond hefyd yn cyfeirio at bartneriaethau sefydledig sydd mewn gwell sefyllfa i gyflawni. Bydd y partneriaethau sefydledig a'r BPRh yn cysoni'r rhaglenni gwaith canlynol :

1. Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Rhanbarthol a gweithredu'r Cynllun Llesiant
2. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
3. Bwrdd Cynllunio Ardal
4. Grŵp Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
5. Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gwent (GCCTRhG)

Bydd y Cynllun Ardal yn cyd-fynd â chynlluniau strategol eraill ac yn ategu atynt i osgoi dyblygu a sicrhau y gellir cyflawni blaenoriaethau trawsbynciol cenedlaethol.

| Fframwaith Cynllunio Strategol | Sut bydd y BPRh a'r Cynllun Ardal yn cyd-fynd: |
|---|---|
| **Rhaglen Genedlaethol y Llywodraeth: Dileu Elw o Wasanaethau Plant a Lleihau Unigrwydd ac Ynysu.** | • Bydd Cynllun Ardal yn nodi sut mae partneriaid yn cydweithio er mwyn Dileu elw o Wasanaethau Plant drwy adran Plant a Phobl Ifanc yn y Cynllun.<br><br>• Bydd y Cynllun Ardal yn nodi sut mae partneriaid yn cydweithio i leihau unigrwydd ac unigedd ar draws ystod o adrannau yn y Cynllun Ardal a chyfrannu at Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Llesiant Rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)** | • Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Asesiad Llesiant yn cael eu datblygu mewn partneriaeth.<br>• Bydd y Cynllun Ardal yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant, croes gyfeirio blaenoriaethau, ble mae'r BPRh a'r BGC yn arwain, a ble mae perchnogaeth ar y cyd. |
| **Egwyddorion Marmot** | • Bydd y Cynllun Ardal yn nodi ble mae'r camau yn cyfrannu at egwyddorion Marmot. |
| **Fframwaith Canlyniad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Bydd adrannau'r Cynllun Ardal yn amlygu cyfraniadau at ganlyniadau a dangosyddion cenedlaethol. |
| **Cynllunio Tymor Canolig Integredig** | • Bydd y Cynllun Ardal yn cyd-fynd ac yn nodi cyflawni blaenoriaethau CTCI pan fyddant yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth. |
| **Chwe Nod Gofal Brys Cenedlaethol GIG Cymru** | • Bydd y Cynllun Ardal yn cyd-fynd ac yn nodi Nodau Gofal Brys sydd angen eu cyflawni a phan fyddant yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth. |
| **Cynlluniau Gwella Corfforaethol yr Awdurdodau Lleol** | • Bydd y Cynllun Ardal yn cyd-fynd â blaenoriaethau awdurdodau lleol pan fyddant yn gysylltiedig â gwella llesiant a gofal cymdeithasol. |
| **Modelau Gofal Cenedlaethol** | • Bydd yr adrannau thema craidd yn y Cynllun Ardal yn nodi'r Modelau Gofal cysylltiedig a gyflawnir.<br>• Bydd Partneriaethau BPRh yn gorgyflenwi Modelau Gofal. |
| **Gofal Iechyd Sy'n Seiliedig ar Werthoedd** | • Bydd partneriaethau strategol yn cyd-fynd ac yn mabwysiadu egwyddorion GISaW (atal, diagnosis cynnar a chywir, ymyrryd cymaint ag y bo modd, triniaeth gefnogol a gofal diwedd bywyd).<br>• Adrannau'r Cynllun Ardal i nodi lle mae nodau GISaW yn cael eu cyflawni (gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, iechyd digidol, cyfathrebu/ymgysylltu/addysg a chyflawni gwerth). |

## Ymgysylltu a Chyd-gynhyrchu (Sut Rydym Wedi Datblygu'r Cynllun Hwn)

> "A way of working whereby citizens and decision makers, or people who use services, family carers and service providers work together to create a decision or service which works for them all.
>
> The approach is value-driven and built on the principle that those who use a service are best placed to help design it."

Cyd-gynhyrchu: beth ydyw a sut i fynd ati i'w gyflawni| SCIE

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo cynnwys unigolion y darperir gwasanaethau

gofal, cymorth neu ataliol ar eu cyfer, yn nyluniad a gweithrediad y ddarpariaeth honno. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi llunio cyfarwyddyd ychwanegol i helpu awdurdodau lleol ddeall profiadau a chanlyniadau'r unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol â chysylltiadau ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru.

Mae Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (DGCaLl) yn nodi'r angen i ymgysylltu, ac mae'r Cynllun Ardal yn adeiladu ar yr ymgysylltu eang â dinasyddion (y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr di-dâl) yn natblygiad Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. Mae'r BPRh wedi parhau i ymgysylltu a dinasyddion yn ystod datblygiad y Cynllun Ardal, a gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr y BGC drwy grwp ymgysylltu ar y cyd i sicrhau bod lleisiau'r dinasyddion yn ganolog i ddatblygiad y cynlluniau gweithredu sylfaenol.

***"Fe wnaeth llawer o drigolion dynnu sylw at bwysigrwydd gofal a chefnogaeth i'r rheini sydd eu hangen yng Ngwent a pha mor bwysig ydyw i allu rhoi'r gofal iawn i bobl hŷn yn y rhanbarth" – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.***

**<u>Sut y Bydd y BPRh yn Ymateb</u>**

Bydd y BPRh yn ymateb i sylwadau gan ddinasyddion, a bydd yn darparu gwybodaeth, Cyngor a Chymorth effeithiol yn ogystal â 'chyfeirio' gofal a chymorth i bobl hŷn ar draws y rhanbarth mewn partneriaeth, yn cynnwys cynyddu llesiant drwy gael hyd i'r cymorth cywir ar yr adeg gywir, o ran cymorth a gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws y rhanbarth.

***"Tynnwyd sylw at iechyd meddwl a phwysigrwydd y math cywir o wasanaethau i oedolion a phlant, drwyddi draw yn yr adborth yr ydym wedi ei dderbyn. Fe wnaeth trigolion hefyd sôn am bwysigrwydd ymarfer corff a'r gallu i fyw bywyd iach, ac yn allweddol i hyn oedd cael cyfleoedd i ddefnyddio canolfannau chwaraeon a mannau gwyrdd" – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent***

Mae'r BPRh wedi ymgysylltu'n eang ar draws y rhanbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o systemau fel arolygon ar-lein, cynadleddau rhanbarthol a gwaith gyda grwpiau bach, yn ogystal â chreu cyswllt â'r fforymau sefydledig isod. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Ardal ar gael i'r cyhoedd drwy arolwg ar-lein. Yn ogystal â hynny, cysylltwyd yn uniongyrchol â dros 700 o bobl, drwy'r grwpiau dinasyddion. Daeth dros 200 o ymatebion i law. Cafodd egin flaenoriaethau'r BPRh hefyd eu cynnwys yn ymgynghoriad diweddar ar gyfer cynllun llesiant BGC Gwent, a lwyddodd i gyrraedd 1,200 o ddinasyddion. Fe wnaeth dros 750 o ddinasyddion gymryd rhan yn uniongyrchol ac ymgyfarwyddo â'r cynlluniau drafft ar-lein, gyda 275 ohonynt yn cynnig sylwadau ac adborth.

Ymhlith y fforymau yr ymgysylltwyd â hwy oedd:

- Gwefan BPRh – Survey Monkey
- Newport One – Holiadur Ymgynghori.

- Rhwydwaith Dinasyddion Gwent
- Cymunedau Sy'n Ystyriol o Ddementia
- Grŵp Llywio Awtistiaeth Gwent
- Rhannwyd gyda rhwydweithiau RhLlI ledled Gwent
- Mynychwyr Grŵp Llywio Atal Hunanladdiadau a Hunan Niweidio Gwent

***"Mae'n ymddangos bod ganddo fwy o ffocws a chyswllt na'r Cynllun Ardal cyntaf o'i fath, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd sefydliadau sy'n cydweithio gyda'r rheini sydd angen ac yn derbyn gofal a chefnogaeth" – Adborth gan Ddinesydd***

Mae'r codau ymarfer sy'n sail i'r Ddeddf yn nodi'r angen i ymgysylltu â:

- Phobl yn yr ardal, yn cynnwys plant sydd ag anghenion gofal a chymorth neu efallai bod ganddynt anghenion gofal a chymorth.
- Pobl yn yr ardal sydd â chyfrifoldeb am blant sydd ag anghenion gofal a chymorth neu efallai bod ganddynt anghenion gofal a chymorth; a
- Gofalwyr sydd ag anghenion cymorth neu efallai bod ganddynt anghenion cymorth.

Mae'r Bartneriaeth Strategol ranbarthol ar gyfer Plant a Theuluoedd wedi cydlynu'r gwaith o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar blant, pobl ifanc a rhieni, a chysylltu â fforymau sydd eisoes yn bodoli, fel Fforwm Ieuenctid Gwent a'r Senedd Ieuenctid.

Mae **Panel Dinasyddion BPRh Gwent** wedi parhau i arwain a sicrhau yr ymgysylltir yn natblygiad y Cynllun Ardal. Bydd y panel yn dewis tair o flaenoriaethau allweddol y Cynllun Ardal i ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn nesaf. Eir ati'n rheolaidd i adolygu cynnydd y cynlluniau gweithredu a darparu adborth. Mae **Cadeirydd Panel y Dinasyddion** yn cyfleu'r diweddaraf i aelodau'r BPRh drwy eitem sefydlog yn y cyfarfodydd BPRh. Mae'r BPRh hefyd wedi hyrwyddo a chefnogi ymgysylltu â dinasyddion ar lefel partneriaeth strategol, fel gofalwyr di-dâl, pobl sydd â phrofiad byw o ddementia ac aelodau'r partneriaethau priodol. Mae'r cadeirydd hefyd wedi eistedd ar y grŵp cenedlaethol sy'n datblygu'r **Siarter Newydd i Ddinasyddion** ac mae'r BPRh wedi ymrwymo'n llawn i'w fabwysiadu ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

Mae'r BPRh wedi sefydlu **Fforwm Darparwyr** sy'n cynnwys ystod eang o bartneriaid trydydd sector a darparwyr preifat. Mae Cadeirydd y fforwm Darparwyr hefyd aelod o'r BPRh ac mae'n cyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf ymhob cyfarfod drwy eitem sefydlog ar yr agenda. Nid yw'r Fforwm Darparwyr wedi ei gyfyngu i'r trydydd sector a darparwyr preifat yn unig. Mae'n cynnwys aelodau o bob cwr o iechyd a gofal cymdeithasol i arwain, datblygu a hyrwyddo **Mentrau Cymdeithasol, Cydweithfeydd** a **Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr,** mewn partneriaeth. Mae'r Fforwm Darparwyr yn arwain trafodaethau Gwerth Cymdeithasol yn enwedig o ran ail gydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol.

Datblygwyd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad gyda darparwyr gofal o blith darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol, trydydd sector ac annibynnol, yn enwedig y partneriaid hynny sydd â diddordeb mewn gwasanaethau ataliol. Roedd ymgysylltu â darparwyr gofal yn bwysig yn ystod pandemig Covid-19, am fod angen deall pwysau a heriau. Sefydlwyd gweminarau wythnosol gyda chartrefi gofal a darparwyr gofal cartref ac maent yn dal i barhau, er yn llai aml.

Mae'r **Arweinwyr Trydydd Sector** o'r ddau sefydliadu ymbarél (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen) hefyd yn eistedd ar y BPRh ac yn darparu adborth drwy eitemau sefydlog ar agenda'r' BPRh. Gwneir hyn i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu hamlinellu ar ôl ymgysylltu â phartneriaid y trydydd sector, ymhob cyfarfod.

## Canlyniadau'r Cynllun Ardal

Dyma ein hail Gynllun Ardal ar gyfer Gwent (yn dilyn ein cynllun cychwynnol yn 2017) lle y gallwn barhau â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo a chynllunio i fynd i'r afael ag anghenion newidiol ein cymunedau a pharhau i'w cefnogi. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r cyfeiriad cenedlaethol a sefydlwyd yn '*Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'* . Mae'n trosi gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r cynllun cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn gamau gweithredu mesuradwy a chadarn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol inni gefnogi a gwella ein partneriaethau statudol a'n darlun integredig, yn nhermau cynllunio, dylunio, ariannu, a chomisiynu gwasanaethau i'r bobl hynny sydd angen gofal a chefnogaeth yng Ngwent. Mae'n galluogi rhoi mwy o bwyslais o lawer ar ddatblygu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar, cyd-gynhyrchu â'r rheini sydd angen gofal a chefnogaeth, a gwella lles, fydd yn sbarduno'r holl weithgarwch. Y mae'n sylfaen hefyd i'r egwyddorion gweithio a sefydlwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau ein bod yn mynd ati i ystyried ffyrdd o wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

Mae rhestr lawn o ganlyniadau a mesurau'r Cynllun Ardal wedi eu nodi isod o dan y themâu craidd a nodwyd yn yr AAB (a grybwyllwyd uchod) y mae'r BPRh wedi cytuno arnynt. Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer pob un o'r themâu craidd ac maent yn cynnwys camau gweithredu mewn perthynas â chanlyniadau sydd o flaenoriaeth yn yr AAB yn ogystal â chamau mewn perthynas â:

- **Ystod a lefel y gwasanaethau** – asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni'r anghenion dan sylw, a'r camau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau hynny.
- **Sefydlogrwydd y Farchnad** – asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, sy'n darparu gofal a chymorth gan gynnwys blaenoriaethau comisiynu.
- **Datblygu'r gweithlu**.

Y canlyniadau yw man cychwyn fframwaith rheoli perfformiad y BPRh ac maent wedi eu cynnwys i ddarparu ystod pendant o fesurau llwyddiant fydd yn cael eu monitro gan y BPRh a'i bartneriaethau strategol. Bydd rhestr fwy cadarn o fesurau perfformiad a data ansoddol yn cael ei datblygu ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun Ardal. Canlyniadau'r Cynllun Ardal hefyd yw'r canlyniadau yr ydym am eu cyflawni i'r dinasyddion, gyda mesurau llwyddiant uchel eu lefel ar waith i fonitro'r cynnydd.

| **Thema Graidd Llywodraeth Cymru** | **Canlyniad/Blaenoriaeth** | **Mesurau Llwyddiant DRAFFT** |
|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | • Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth trwy ymyrraeth gynharach, cefnogaeth yn y gymuned, a lleoliadau yn nes at y cartref.<br>• Sicrhau iechyd meddwl a lles da i blant a phobl ifanc drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn enwedig lliniaru effaith pandemig Covid-19 yn y tymor hir. | • Cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a theuluoedd ag anghenion cymhleth i leihau'r nifer o leoliadau tu allan i'r sir a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n derbyn sgiliau byw.<br>• Cynyddu nifer y partneriaid sy'n mabwysiadu a chyflwyno egwyddorion NYTH.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth, nifer yr atgyfeiriadau a'r gefnogaeth drwy baneli Lles G.O.F.O.D. |
| Pobl Hŷn yn cynnwys y rheini sydd â Dementia | • Gwella lles emosiynol pobl hŷn drwy leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol drwy ymyrraeth gynharach a gwytnwch cymunedol.<br>• Gwella canlyniadau i bobl sy'n dioddef o ddementia, a'u gofalwyr.<br>• Cefnogi pobl hŷn i fyw, neu i ddychwelyd i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, a hynny drwy ymyrryd yn gynnar, modelau gofal integredig a dull system gyfan.<br>• Lliniaru effaith hirdymor pandemig Covid-19 drwy | • Cynyddu cymorth o ran ymyrraeth gynnar a chyfleoedd cynhwysiant i leihau unigrwydd ac unigedd.<br>• Cynyddu GCC ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar i gefnogi lles gwybyddol a hysbysu ynghylch ffactorau risg dementia.<br>• Lleihau nifer y bobl sydd â dementia, sy'n derbyn diagnosis ffurfiol.<br>• Cynyddu nifer y Cyfeillion Dementia, Llysgenhadon Dementia a Mudiadau sy'n ystyriol o Ddementia, drwy waith integredig gyda'r partneriaethau Cyd rhanbarthol a'r Bwrdd Dementia. |

| | | |
|---|---|---|
| | fynd ati'n benodol i leihau rhestrau ac amserau aros i gael hyd i gymorth, apwyntiadau a thriniaethau meddygol. | • Cynyddu'r gefnogaeth i bobl sy'n dioddef o ddementia pan fyddant yn derbyn diagnosis.<br>• Lleihau nifer yr achosion o Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal drwy waith integredig.<br>• Cynyddu lles drwy gael hyd i'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir. |
| Iechyd ac anableddau corfforol | • Cefnogi pobl anabl, gan gynnwys y rheini â nam ar y synhwyrau, trwy alluogi pob oed i fyw'n annibynnol mewn llety priodol a chael gwasanaethau cymunedol yn cynnwys trafnidiaeth.<br>• Sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth drwy gael y wybodaeth , y cymorth a'r cymorth cywir yn cynnwys i adsefydlu lle bo angen.<br>• Gwella'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer pob grŵp oedran a gwasanaethau cymorth. | • Lleihau dyblygu gwasanaethau i blant sydd ag anghenion ac anableddau cymhleth drwy wasanaethau integredig i blant ag anghenion ychwanegol (ISCAN). |
| Pobl ag Anabledd Dysgu | • Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol a chael gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn y gymuned; gan sicrhau bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o bobl ag anableddau dysgu a'u deall yn well. | • Cynyddu ymyrraeth gynnar a'r gefnogaeth ymarferol sydd ei angen i helpu pobl i fyw'n annibynnol.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth a'r hyn y mae pobl yn ei ddeall am anghenion pobl unigol ag anableddau dysgu.<br>• Cynyddu nifer y cyfleoedd cymdeithasol i bobl ag anabledd dysgu.<br>• Cynyddu nifer y pecynnau cymorth pwrpasol ac unigol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu fydd yn cynnwys mwy o gefnogaeth un i un yn y gymuned ac yn galw am yr angen recriwtio nifer mwy o wirfoddolwyr.<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ag anableddau ddysgu, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio am dâl. |


| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynyddu nifer y cyfleoedd cymdeithasol drwy '*My Mates'*.<br>• Hoffai'r rheini sydd ag anableddau dysgu, gael mwy o gyfleoedd i ddysgu, hyfforddi a gweithio er mwyn byw'n annibynnol. |
| Iechyd Meddwl | • Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymysg y cyhoedd, er mwyn lleihau stigma a helpu pobl i chwilio am gymorth yn gynt.<br>• Mae angen i ni wella lles emosiynol ac iechyd meddwl oedolion a phlant drwy ymyrraeth gynnar amserol a chymorth cymunedol. | • Cynyddu nifer y bobl sy'n tro at wasanaethau GCC yn cynnwys Melo a Dewis Cymru ac sy'n cael eu cyfeirio at yr ymyraethau mwyaf effeithiol.<br>• Cynyddu'r Wybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) sydd ar gael mewn fformatau hygyrch i roi mwy o ddewis i bobl gefnogi'u lles.<br>• Cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael mewn ysgolion a chymunedau, ar gyfer lles emosiynol drwy ganfod modelau arfer gorau.<br>• Cynyddu'r gefnogaeth a roddir i'r gweithlu i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r hyfforddiant effeithiol i gyflawni'u rôl.<br>• Sicrhau bod y gweithlu yn derbyn cefnogaeth, er mwyn gallu darparu'r gefnogaeth iawn y mae pobl ei hangen, ar yr adeg iawn.<br>• Cynyddu'r gefnogaeth a roddir i'r gweithlu o ran lles emosiynol.<br>• Cynnal y 12% o bobl sy'n gweithio drwy *Lle i Dyfu* a Chonsortiwm Iechyd Meddwl Gwent. |
| Nam ar y synhwyrau | • Sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth drwy gael hyd i wybodaeth gywir a hygyrch, cymorth a chyfle i 'adsefydlu' lle bo angen.<br>• Roedd llawer o bobl yn teimlo'n unig ac ynysig yn ystod y pandemig ac fe wnaeth hyn dynnu sylw at | • Cynyddu'r GCC hygyrch sydd ar gael i ganiatáu i bobl wneud dewisiadau gwybodus ynghylch eu anghenion gofal a chymorth.<br>• Cynyddu cyfleoedd i wella rhyngweithio cymdeithasol, iechyd meddwl, a lles. |

| | | |
|---|---|---|
| | y ffaith bod angen mwy o gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol sy'n fwy hygyrch. | |
| Gofalwyr | • Cefnogi gofalwyr di-dal i ofalu drwy gynnig seibiannau hyblyg, cyfle i gael hyd i'r wybodaeth gywir, cymorth gan gymheiriaid i gymheiriaid, cynllunio gofal mewn modd effeithiol a thrwy gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd.<br>• Gwella lles gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc a lliniaru yn erbyn effeithiau hirdymor. | • Cynyddu ymwybyddiaeth a'r angen am gyfleoedd seibiant hyblyg.<br>• Cynyddu cyfleoedd cymorth gan gymheiriaid i gymheiriaid.<br>• Cynyddu GCC sy'n hygyrch.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o ddealltwriaeth y cyhoedd ynghylch gofalwyr a'r gefnogaeth sydd ar gael.<br>• Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun gwobrau Gofalwyr Ifan.<br>• Cysylltu ymwybyddiaeth gofalwyr ifanc â sesiynau Llysgenhadon Dementia mewn ysgolion.<br>• Cynyddu niferoedd y meddygfeydd sy'n ymwybodol o Ofalwyr.<br>• Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cymorth cymheiriaid i gymheiriaid a sesiynau seibiant.<br>• Cynyddu nifer y cyfleoedd cyfeillio drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddieliaid. |
| Awtistiaeth | • Rhoi diagnosis mwy amserol o ran Anhwylder Sbectrwm Awtistaidd a mynediad at wasanaethau cymorth a gwybodaeth. | • Lleihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau diagnostig.<br>• Cynyddu'r GCC hygyrch sydd ar gael cyn, ac ar ôl diagnosis.<br>• Cyflwyno mwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch Awtistiaeth a niwroamrywiaeth yn y maes iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach y BPRh yn ogystal â'r cyhoedd.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth a'r hyn a ddeellir am awtistiaeth ac anhwylderau niwroddatblygiadol eraill, a'i derbyn, a hynny drwy gynigion hyfforddi pwrpasol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynyddu cyfleoedd i bobl ddod o hyd i gyfleoedd dysgu, hyfforddi a gweithio i'w cefnogi i fyw'n annibynnol.<br>• Mae unigolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd yn cael mwy o fynediad uniongyrchol i gymorth arbenigol drwy fodel hunan atgyfeirio. |

**<u>Llywodraethu, Sicrwydd a Monitro'r Cynllun Ardal</u>**

Mae'r dyheadau sydd wedi'u hamgáu o fewn y cynllun hwn yn uchelgeisiol, a hynny o ran newid sylweddol yng nghyflymder y cydweithio, gweithio mewn partneriaeth a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'n hollbwysig felly, bod mecanweithiau llywodraethu a sicrwydd effeithiol ar waith drwy'r strwythur Partneriaeth Rhanbarthol.




*Ffig 1: Canllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu strwythurau BPRh sy'n effeithiol*

Mae fframwaith Llywodraethu rhanbarthol wedi'i nodi yng nghylch gwaith y BPRh a phartneriaethau strategol, i gefnogi gwaith y Bwrdd, ac i gynnig sicrwydd o ran cyflawni'r gweithgarwch yr ymrwymwyd iddo yn yr adroddiad. Bydd y fframwaith hwn bod y yr holl asiantaethau unigol sy'n bartneriaid yn medru mynd ati mewn modd effeithiol i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau, a hynny ochr yn ochr â'u rolau trosolwg a  chraffu.

Cefnogodd y BPRh gamau Llywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn cymorth hunanasesu a chwblhaodd ymarfer yn 2022. Bydd y BPRh yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn datblygu cynllun busnes fydd yn cael ei adolygu fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y BPRh, i gefnogi ac atgyfnerthu'r cam o reoli a monitro perfformiad.

Cefnogir y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gan 'Grŵp Arweinyddiaeth' strategol sy'n cynnwys uwch swyddogion sy'n rhoi pwyslais cryf ar arweinyddiaeth ar y cyd. Sicrheir bod nodau'r BPRh yn cael eu cyfleu i fusnes craidd y sefydliadau sy'n bartneriaid.

Sefydlir partneriaethau strategol thematig i gyfarwyddo a chyflawni'r gweithgarwch yr ymrwymwyd iddo yn y cynllun hwn ar gyfer y grwpiau poblogaeth penodol hynny a nodwyd yn yr asesiad anghenion. Mae pob partneriaeth yn cael ei chyd-gadeirio gan uwch arweinwyr yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd ar y Grŵp Arweinyddiaeth ac sydd wedi arwain ar ddatblygu cynlluniau gweithredu'r thema graidd. Mae pob un o'r partneriaethau strategol wedi cytuno ar gylch gwaith cyffredin, a gefnogir gan gylch gwaith ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Integredig.

Bydd y fframwaith llywodraethu yn cael ei adolygu ar ôl cyhoeddi'r codau ymarfer i ddarparu proses glir a llwybr clir rhwng Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (yn flaenorol roedd 5 bwrdd gwasanaeth cyhoeddus ar wahân, un ymhob ALl) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac i'r Byrddau Partneriaeth Integredig ar lefel awdurdod lleol. Bydd y BPRh a'r BGC yn sicrhau eu bod yn cysoni ac yn cydlynu'r gwaith

## Sut Byddwn Ni'n Monitro'r Cynllun Ardal

Mae'n hanfodol bod y BPRh yn monitro ac yn gwerthuso adrannau themâu craidd y cynllun gweithredu i sicrhau camau llywodraethu a chraffu effeithiol. Bydd adrannau pob thema graidd yn nodi mesurau llwyddiant i'w riportio i'r BPRh a bydd fframwaith rheoli perfformiad a strwythur adrodd yn cyd -fynd â'r Cynllun Ardal ac yn nodi:

- **Datganiad Sefyllfa**– lle rydyn ni, a'r corneli yr ydym wedi troi.
- **Ffactorau cynnydd** – yr hanes y tu ôl i'r corneli yr ydym wedi troi.
- **Llwyddiannau** –canfod arfer da.
- **Heriau** – rhwystrau rhag gwneud cynnydd.
- **Camau nesaf** – yr hyn y gofynnir i'r BPRh ei gefnogi neu ei glirio.

Mae'r mesurau llwyddiant a nodwyd yn adrannau'r thema graidd yn adlewyrchu'r mesurau perfformiad yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, a Fframwaith Canlyniadau'r GIG. Bydd y BPRh hefyd yn cyfeirio at ac yn eu cysoni â mesurau perfformiad mewn cynlluniau llesiant lleol a Chynlluniau Gwella Awdurdodau Lleol; ac yn ystyried datblygu data trwy weithredu'r Cynllun Ardal oherwydd efallai na fydd rhai mesurau llwyddiant yn cael eu mesur ar hyn o bryd.

- Bydd y BPRh yn llunio adroddiad blynyddol ar weithgaredd a chanlyniadau ac

yn cyfleu’r diweddaraf am gynnydd bod chwarter.

- Bydd y BPRh yn datblygu rhaglen hunanasesu a datblygu sefydliadol i sicrhau bod yr arweinyddiaeth a’r trosolwg yn effeithiol.
- Bydd y BPRh yn sicrhau ei fod yn cyhoeddi adroddiadau dan broses sicrwydd iechyd a llywodraeth leol yn enwedig pan fydd hynny’n ymwneud â chynllunio a chyllid, a lle mae angen ymrwymiad gan bartneriaid statudol.
- Bydd gofyn i'r partneriaethau strategol adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar weithgareddau, ac effeithiolrwydd.

Mae'r broses adrodd ar reoli perfformiad wedi'i nodi yn Atodiad 3.

## Hwb Cydlynu Ymchwil/Arloesi a Chanfod Arfer Da

Ym mis Mai 2021 nododd y Prif Weinidog ei safbwynt yn glir, bod arloesi mewn iechyd a gofal yn ganolog i sicrhau nad ydym yn colli momentwm na’r diwylliant o ‘wneud pethau’n gyflym’, i gyflawni’r canlyniadau gorau posibl i’r cyhoedd a Chymru. Cafodd Hybiau Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella (RIIC) eu hail-frandio fel hybiau Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (CAR).

Er mwyn i system iechyd a gofal cymdeithasol sy’n cael ei arwain gan arloesi, lwyddo, mae hwyluso ymgysylltu a chydweithio rhwng y GIG, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai, y Trydydd Sector, y Byd Academaidd a Diwydiant yn hollbwysig. Mae egwyddorion yr hybiau CAR yn gyfle i ddatblygu’r gweithgaredd hwn ar lefel rhanbarthol, ac mae hynny’n sylfaenol o ran dod â phobl, adnoddau a sefydliadau at ei gilydd yn gyflym, i fuddio a sicrhau gwerth uchel ar draws y system iechyd a gofal.

Mae’r BPRh wedi ystyried cyfle am Hwb CAR i gefnogi monitro ac adolygu’r Cynllun Ardal, drwy Gymuned Ymarfer i:

- Greu cronfa o arferion da cyfredol, codi ymwybyddiaeth ynghylch y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes a chynyddu’r camau i fabwysiadu hyn ar draws y bartneriaeth.
- Cydlynu cefnogaeth ac adnoddau i alluogi arloesi drwy heriau, syniadau, ac atebion ar draws y partneriaethau, gan ymgysylltu’n agosach â dinasyddion.
- Hwyluso digwyddiadau a gweithdai i rannu arfer da, astudiaethau achos a straeon dinasyddion, gyda mwy o bwyslais ar ymwybyddiaeth a mabwysiadu.
- Cefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gan ganolbwyntio ar weithio i amlygu arfer da a chyfleoedd i brif ffrydio ar draws y rhanbarth.
- Canfod syniadau newydd a’r gallu i gefnogi newidiadau bach sydd â’r potensial i gael eu lledaenu a’u haddasu er mwyn eu mabwysiadu.

Bydd pob partneriaeth strategol yn creu cyswllt â'r Hwb CAR i fonitro'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Ardal a nodi arfer da.

**CEFNDIR STRATEGOL**

## Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn 2018, gan dynnu sylw at anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth, yn cynnwys gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Yr 8 thema graidd ar gyfer yr asesiad yw:

- **Plant a Phobl Ifanc**
- **Pobl Hŷn, yn cynnwys Pobl sy'n dioddef o Ddementia**
- **Iechyd ac Anableddau Corfforol**
- **Iechyd Meddwl**
- **Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth**
- **Nam ar y Synhwyrau**
- **Gofalwyr**
- **Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Ni eir i'r afael â themâu craidd ar wahân ac mae yna elfen o weithio trawsbynciol. Yn ogystal â'r uchod, fe wnaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ganfod themâu eraill o flaenoriaeth sy'n drawsbynciol. Maent yn cynnwys:

- **Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol gwydn, medrus ac integredig**
- **Camddefnyddio sylweddau**
- **Amddiffyn oedolion, amddiffyn plant a diogelu**
- **Anghenion yn ymwneud â thai**
- **Awtistiaeth**
- **Ail-gydbwyso iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys gwerth cymdeithasol**
- **Trawsnewid gwasanaethau i blant a dileu'r elw yn sgil plant sy'n derbyn gofal**
- **Mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd**

Datblygwyd adroddiad ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB) gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a chafodd ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2022. Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma: Asesiad o Anghenion y Boblogaeth BPRh Gwent ac mae'n cynnwys mwy o fanylion mewn perthynas â'r pwyntiau uchod.

Mae'r camau a ddisgrifiwyd yn y cynllun hwn yn seiliedig ar yr hyn y mae cymunedau wedi ei ddweud wrthym yn eu Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB), pan aethpwyd ati i asesu 'anghenion gofal a chymorth' ein poblogaeth leol yma yng Ngwent. I wneud hyn, fe weithiom gyda'n grwpiau dinasyddion, grwpiau proffesiynol a chysylltu â chydweithwyr bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ymgysylltu â'n cymunedau.

Bydd Cynllun Ardal Gwent yn nodi'r gwasanaethau a gynlluniwyd gan awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd mewn ymateb i'r themâu craidd a nodwyd yn yr AAB. Y mae

hefyd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed i fapio gwasanaethau yn rhan o'r AAB. Mae gwasanaethau eraill yn cael eu datblygu'n rhan o'r agenda ar drawsnewid a datblygu sy'n rhan o gynllun y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) a'r Strategaeth Gomisiynu

Mae Adran 144B Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad i helpu awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol yn well ym mhob ardal, yn enwedig o ran gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio fel lletyau cartrefi gofal, gofal cartref a maethu.

Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021, yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol gyflawni'r swyddogaethau hyn mewn partneriaeth ar draws yr ardal sy'n rhan o BPRh. Mae'r ASF diweddaraf wedi ei gynnwys ar wefan BPRh a gellir ei ddarllen yma.

Mae'r ASF yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran comisiynu ac mae angen i Gynlluniau Ardal gynnwys adolygiad o'r trefniadau cyfuno cronfeydd a'r cydgomisiynu ar hyn o bryd ar draws y rhanbarth, yn enwedig mewn perthynas â'r Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth (nid oes trefniadau cyfuno cronfeydd i gartrefi gofal ar hyn o bryd). Mae rheoliadau partneriaeth 2015 hefyd yn mynnu bod cyrff partneriaethau ymhob BPRh yn nodi sut yr eir ati i alluogi eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd, ystyried modelau eraill fel mentrau cymdeithasol a manylion y mathau o wasanaethau bydd yn cael eu trefnu, eu caffael a'u cyflenwi gan ddarparwyr sector preifat, darparwyr trydydd sector neu fodelau cyflawni eraill.

Mae'r Papur Gwyn 'Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth' yn nodi dyheadau Gweinidogion i ail-gydbwyso'r sector gofal cymdeithasol, o gost i ansawdd, o allbynnau i ganlyniadau ac o elw tuag at werth cymdeithasol.  Bydd y Fforwm Darparwr (Gwerth Cymdeithasol) yn parhau i gefnogi'r BPRh i ymgysylltu a darparwyr gofal a phartneriaid trydydd sector i sicrhau eu bod yn ymgysylltu a chyd gynhyrchu gyda phartneriaid.

Mae BPRh Gwent wedi sefydlu Grŵp Comisiynu Rhanbarthol i oruchwylio'r comisiynu ar draws y rhanbarth, ac mae adran o'r cynllun gweithredu yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau allweddol i fwrw ymlaen â hyn.

Blaenoriaethau'r Adroddiad ar Sefyllfa'r Farchnad:

1. Gwasanaethau Oedolion – sefydlogrwydd y farchnad mewn gwasanaethau oedolion wrth i'r pwysau gynyddu yn sgil costau uwch, a hynny oherwydd anawsterau wrth recriwtio a chadw sydd bellach wedi ymwreiddio,, yn enwedig yn y marchnadoedd gofal cartref a phreswyl i oedolion.
2. Iechyd meddwl a gwasanaethau anableddau dysgu – y ddarpariaeth iechyd meddwl a gwasanaethau anableddau dysgu yn cynnwys gwasanaethau dydd.

3. Plant - mae angen comisiynu maethu a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn nes at y cartref a lleihau'r ddibyniaeth ar fudiadau sy'n gwneud elw, sydd, yn aml ymhell o gartrefi pobl, a hynny'n unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar Ddileu Elw o Wasanaethau Plant.
4. Parhau i hyrwyddo mentrau cymdeithasol drwy Fforwm Ddarparwyr (Gwerth Cymdeithasol) Gwent.

**Cynllun Cyfalaf Strategol**

Mae'n ofynnol i bob BPRh ddatblygu Cynllun Cyfalaf Strategol (CCS) 10-mlynedd, sydd yn dod â phartneriaid yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector, addysg ac adfywio at ei gilydd i ddatblygu cyfleusterau integredig i gyflenwi gwasanaethau ac atebion sy'n seiliedig ar lety integredig. Bydd CCS Gwent yn alinio gyda'r Cynllun Ardal hwn ac agendau cenedlaethol ategol fel canllawiau'r Llywodraeth ar Ddileu Elw o Wasanaethau Plant a datblygu atebion seiliedig ar lety yn y rhanbarth.

Mae Rhaglen y Llywodraeth yn cynnwys ymrwymo i greu 50 o hybiau a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru. Ariennir y gwaith o ddatblygu'r hybiau hyn drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (refeniw) a Chronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithaso (cyfalaf).Mae angen meithrin dull strategol i ganfod trefniadau'r hwb ar hyn o bryd, a chyfleoedd ar gyfer hybiau ychwanegol neu wella hybiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn gallu cynnig gwasanaeth integredig yn nes at y gymuned.

Bydd y Bartneriaeth Strategol Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol yn goruchwylio a chefnogi trefniadau partneriaeth i ddatblygu a chyflawni CCS; a bydd hyn yn cael ei nodi yn Adran Tai y Cynllun Ardal.

**Y Ddeddf Cydraddoldeb a Gwaith â Ffocws gyda Grwpiau Lleiafrifol**

Rydym wedi ceisio barn y rheini nas glywir bron byth ganddynt a'r rhai sy'n ar y cyrion, yn cynnwys y rheini o grwpiau lleiafrifol fel pobl ddigartref a theithwyr. Rydym yn parhau i atgyfnerthu ein perthynas gyda grwpiau cymunedol, arweinwyr gwasanaethau a mudiadau fel *Diverse Cymru*, i'n helpu i lunio a chyd gynhyrchu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol sy'n amrywiol, yn gynhwysol ac sy'n diwallu anghenion unigol yn y dyfodol. Rydym wedi defnyddio mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli i ymgysylltu â grwpiau bregus fel y rhai a nodir isod:

- Plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc
- Pobl mewn sefydliadau diogel a'u teuluoedd
- Pobl ddigartref
- Y Gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT)
- Grwpiau Ethnig Lleiafrifol Du
- Cyn-filwyr
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Gwent i atal dyblygu o ran ymgysylltu a chynllunio gyda'n cymunedau, ac mae asesiad lles diweddar y BGC yn dangos bod rhai agweddau ar lesiant sy'n gryfderau go iawn i'n cymunedau fel cysylltiadau cryf a chysylltiadau cefnogol mewn cymdogaethau.

Mae'r cynllun llesiant hefyd yn tynnu sylw at anghydraddoldebau ar draws ein cymunedau, sy'n effeithio ar sawl agwedd ar les. Gall disgwyliad oes y bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig fod yn fyrrach o lawer, ac maent yn fwy tebygol o ddioddef o gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar fywyd. Hefyd, er bod y gyfradd gyflogaeth ar draws Gwent tua'r un peth â Chymru ar gyfartaledd, mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd diwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd a bwyd wedi ategu at hyn. Hyd yn oed mewn ardaloedd sy'n ymddangos eu bod yn fwy cyfoethog, mae yna bocedi o dlodi cudd. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am yr asesiadau yma.

Fe wnaeth pandemig Covid-19 hefyd dynnu sylw at heriau newydd i bobl Cymru. Effeithiwyd yn wael ar iechyd a lles unigolion a chymunedau, a hynny mewn modd anghyfartal. Y rheini sydd eisoes yn dioddef o iechyd gwael, byw mewn tlodi neu mewn cymunedau ymylol oedd y bobl a deimlodd yr effaith fwyaf. Mae wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau y gwyddom eu bod yn bodoli yn ein cymdeithas ymhell cyn y pandemig ac mae'r rhain wedi'u gwaethygu ymhellach o ganlyniad i'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgil y pandemig. Gellir darllen adroddiad llawn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru: ***Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol*** yma.

Bydd adrannau ar thema'r cynllun ardal yn nodi gweithredoedd i gefnogi a chanolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i gefnogi grwpiau lleiafrifol. Er enghraifft, bydd yr adran Plant a Phobl Ifanc yn nodi camau gweithredu allweddol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Bydd yr Adran Tai yn nodi camu i fynd i'r afael â digartrefedd. Bydd yr Adran Gofalwyr yn nodi camau i gefnogi gofalwyr ifanc. Bydd y BPRh, trwy weithio gyda phartneriaid statudol a'r BGC rhanbarthol yn cwblhau dadansoddiad llawn o'r effaith a sicrhau bod y Cynllun Ardal yn bodloni'r gofynion a nodir yn fframwaith strategol y Gymraeg 'Mwy Na Geiriau'.

## Egwyddorion Rhanbarthol a Fabwysiadwyd i Gyflawni Adrannau'r Cynllun Ardal

> ***'Trwy gydweithio, gyda ffocws ar gynaliadwyedd tymor hir byddwn yn trawsnewid gwasanaethau, i ddarparu mwy o ofal yn agosach at y cartref, gwella lles, a chanlyniadau i ddinasyddion.'***

Mae deddfwriaeth ac arweiniad ar iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hadolygu'n barhaus ledled Cymru ac mae'n nodi'r angen i newid cam yng nghyflymder integreiddio, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio - *Ymhellach a Chyflymach'*. Tra y bydd nifer o heriau dal i fodoli o ran goresgyn ffiniau a diwylliannau sefydliadol, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion

gweithio a rhennir yn ogystal â'r egwyddorion sydd yn y Ddeddf, a hynny i sicrhau cysondeb a chyflymu'r ffordd gallwn weithio ar y cyd i drawsnewid ac ailfodelu gwasanaethau. Byddwn yn mabwysiadu:

- Dull integredig wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau
- Dull a rennir o ddatblygu a chynnal y gweithlu
- Datblygu trefniadau ariannol a rhennir
- Hysbysu a galluogi'r rheini sydd ag anghenion gofal a chymorth i reoli eu gofal eu hunain
- Llwybr gofal gwasanaeth di -dor sy'n canolbwyntio'n llwyr ar y dinasyddion

**Gweithio mewn Partneriaeth - Partneriaethau Strategol BPRh**

BPRh fydd yn pennu'r strwythurau mwyaf priodol i sicrhau cynllunio strategol, darparu gwasanaethau integredig a chyflawni swyddogaethau allweddol, yn cynnwys gweithredu'r Cynllun Ardal. Fel arweiniad, dylai strwythurau BPRh:


- Gosod y BPRh fel cyfrwng cydweithredol effeithiol sy'n galluogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i arfer eu dyletswydd i gydweithredu.
- Ystyried trefniadau fydd yn caniatáu gwneud penderfyniadau gweithredol yn fwy cyflym heb danseilio rôl strategol y BPRh.
- Sefydlu is -grwpiau thematig i gefnogi'r cynllun a darparu'r rhaglenni.
- Creu cysylltiadau clir gyda Grwpiau Cynllunio ledled y clystyrau.

Rhaid i BPRh sefydlu trefniadau is-grŵp fan leiaf, mewn perthynas â:

- **Phlant a phobl ifanc** gyda ffocws ar gymorth ac atal cynnar mewn perthynas â
    - Phlant a phobl ifanc sy'n anabl a/neu'n sâl.
    - Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, yn cynnwys y rheini sy'n gadael gofal.
    - Plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth.
    - Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal.
    - Plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.
    - Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.
- **Cynllunio cyfalaf strategol**
- **Fforwm Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol**

Dylai trefniadau is-grwpiau hefyd gynnwys grwpiau sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n ymwneud â thai a llety yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae BPRh Gwent wedi datblygu is -strwythur partneriaeth strategol i gyflenwi adrannau cysylltiedig o'r Cynllun Ardal. Mae adrannau unigol y themâu craidd wedi'u datblygu gan bartneriaethau strategol Gwent gyda chefnogaeth y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Mae'r grwpiau strategol canlynol wedi cydlynu adrannau cysylltiedig o'r thema craidd:

| Partneriaeth Strategol | Adran Thema Graidd y Cynllun Ardal |
|---|---|
| Bwrdd Plant a Theuluoedd | Plant a Phobl Ifanc |
| Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent (GASP) | Pobl Hŷn, Iechyd ac Anableddau Corfforol a Nam ar y synhwyrau |
| Bwrdd Gofalwyr | Gofalwyr |
| Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu |
| Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol | Tai a Chynllunio Cyfalaf Strategol |
| Y Bartneriaeth Awtistiaeth Rhanbarthol | Awtistiaeth |
| Y Bwrdd Dementia | Dementia a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ddementia |
| Bwrdd Gweithlu | Gweithlu |
| Grŵp Comisiynu Rhanbarthol | Cydgomisiynu, Sefydlogrwydd y Farchnad a Chyfuno Chyllidebau |




*Ffig 2: Strwythur y BPRh*

Bydd partneriaethau strategol eraill fel y Bwrdd Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau a Byrddau Diogelu hefyd yn chwarae rhan arweiniol wrth sicrhau bod themâu trawsbynciol fel camddefnyddio sylweddau a diogelu yn cael eu halinio yn y Cynllun Ardal hwn. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn gosod y fframwaith partneriaeth ar gyfer y partneriaethau uchod i gysylltu, alinio blaenoriaethau ac osgoi dyblygu.

**Gwasanaethau Atal ac Ataliol**

Mae Adran 15, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd roi sylw i'r angen i ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol. Hefyd, rhaid i'r BPRh nodi, trwy'r Cynllun Ardal hwn, y gwasanaethau ataliol y bwriedir eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y gwasanaethau presennol a fydd yn cael eu cynnal. Mae pob adran o'r thema graidd wedi'i datblygu gan ddefnyddio egwyddorion ymyrraeth ac atal cynnar.

Mae'r BPRh yn ystyried sut y gall gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar fod yn rhan o feithrin gallu cymunedau, yn unol ag agenda'r gweinidogion, sef 'Ymhellach a Chyflymach'; a bydd yn ystyried strategaeth atal ar gyfer clustnodi ac ailgyfeirio cyllid, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y gaeaf.

**GWEITHIO'N INTEGREDIG**

**Integreiddio Gwasanaethau – Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

Dan Ran 9, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rhoi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd.
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Mae arweiniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi nodi camau allweddol i alluogi integreiddio



Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mabwysiadu egwyddor integreiddio ar gyfer y Cynllun Ardal hwn, yn seiliedig ar y meysydd gwaith canlynol:

- Cyd -gomisiynu gwasanaethau a chyfuno cyllidebau.
- Datblygu a hyfforddi gweithlu ar y cyd.
- Prosesau asesu cyson a chludadwy yn cynnwys pecynnau cymorth o ran canlyniadau a phellter teithio.
- Cydleoli timau.
- Rhannu adnoddau.
- Dealltwriaeth debyg o'r wybodaeth a ddarperir a negeseuon allweddol cyson i ddinasyddion.

Bydd integreiddio, fel y caiff ei ddiffinio uchod, yn cael ei fabwysiadu wrth weithredu'r Cynllun Ardal ac mae disgwyl y bydd y partneriaethau strategol sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun Ardal yn ystyried y meysydd gwaith uchod wrth gyflawni gweithredoedd i gyflawni'r canlyniadau canfyddadwy.

## Datblygu System Gofal a Llesiant Integredig i Went

Mae'r Adolygiad Seneddol ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn nodi:

***"Mae'r galw cynyddol am ofal yn wyneb twf economaidd cymedrol yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau iechyd a gofal newid ac addasu i fodloni anghenion yn y ffordd orau a helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Fel y byddwn yn dangos, nid yw'r system iechyd a gofal yn gynaliadwy yn y dyfodol yn ei ffurf bresennol; mae angen newid i greu gwelliannau sylweddol i wasanaethau, a hynny ar frys ac yng gynt o lawer nag yn y gorffennol". (cyfieithiad)***

Yr uchelgais a rennir gan bartneriaid ledled Gwent yw creu system o wasanaethau integredig i'r rheini sydd ag anghenion gofal a chymorth, lle mae mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn nes at y cartref a hynny heb fylchau. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu hybiau iechyd a lles newydd, gweithredu a datblygu ein rhwydwaith o rwydweithiau cymdogaeth, datblygu gwasanaethau integredig rhanbarthol i bobl ag anghenion cymhleth a chynllunio modelau gofal mwy cynaliadwy i blant, oedolion hŷn a'r rheini ag anableddau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

Ein bwriad trwy Gynllun Ardal Gwent yw ail-fodelu gwasanaethau i leihau cymhlethdod diangen a darparu ffordd integredig, ryngbroffesiynol fwy cyson o weithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi datblygu model 'trawsnewidiol' newydd sy'n canolbwyntio ar 'ofal yn seiliedig ar le', gyda gwasanaethau'n gweithredu ar sail poblogaeth leol, gyda chefnogaeth fwy arbenigol ar lefel ehangach. Y mecanwaith ar gyfer cyflwyno hyn yw'r Model Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (RhGC), sy'n unigryw i Went, gyda byrddau partneriaeth integredig, lleol yn darparu arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ar lefel awdurdod lleol.

Priodolir y system ar y cytundeb a rennir gan Iechyd a Llywodraeth Leol i ddarparu mwy o ofal yn agosach at y cartref, i leihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal sylfaenol, ac atal mynd i'r ysbyty heb angen. Bydd y system yn adeiladu ar yr arloesi presennol ledled Gwent, ac yn defnyddio ôl troed RhGC, fel sylfaen i gynllunio a darparu gwasanaethau, a hynny o ran model o les cymunedol.

Mae sefydlu partneriaethau thematig strategol yn darparu canolbwynt i gyflenwi, gyda rhaglenni gwaith pwrpasol, a mesurau canlyniadau penodol ar waith ar draws pob un. Eir ati i gyflwyno drwy'r 'byrddau partneriaeth integredig' lleol, a model RhGC, gan sicrhau dull cydweithredol o gynllunio a chyflenwi, o lefel ranbarthol i ardaloedd.

Bydd y BPRh a phartneriaethau strategol yn mynnu'r disgwyliadau rhanbarthol o ran darparu gwasanaethau ac mae'r BPSI a'r RhGC mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n gyson, waeth i ba ddemograffeg. Mae'r Cynllun yn mynegi sut y byddwn yn bwriadu gwneud hyn, a chyflenwi gwasanaethau integredig, i wella lles y boblogaeth yng Ngwent yn ystod y dair blynedd nesaf. Mae'n sefydlu cyfres o ganlyniadau, mesurau a cherrig milltir a threfniadau rheoli priodol i rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

## Cyllid Integredig Rhanbarthol a Modelau Gofal

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi dyletswyddau statudol ar gyfer byrddau partneriaeth ranbarthol, sy'n dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill at ei gilydd i gyflenwi gwasanaethau integredig yn effeithiol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (GIRh) i gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl fregus a hŷn, pobl ag anabledd dysgu, plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch, a gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Mae'r gronfa'n helpu i gefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartref, gan osgoi mynd i mewn i'r ysbyty heb angen, neu ofal preswyl, ac oedi pan fydd rhywun i fod i gael ei ryddhau o ofal. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cymru, a chyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ledled Cymru.

Bydd ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth a'n Hadroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a gwblhawyd yn 2022 yn helpu i ddatblygu cynlluniau strategol a chynigion ar gyfer buddsoddi refeniw ar gyfer Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 - 2027. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig, fel y gall dinasyddion fod yn siŵr o dderbyn gwasanaeth effeithiol a di-dor mewn perthynas â modelau gofal:

- Gofal yn y gymuned - atal a chydlynu cymunedol.
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn agosach at y cartref.
- Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da.

- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal.
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty.
- Atebion yn seiliedig ar lety.

**Byrddau Partneriaeth Gwasanaeth Integredig mewn Ardaloedd a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth – 'Cyfrwng Cyflawni, Sbarduno Newid'**

Ar lefel awdurdod lleol, sefydlwyd byrddau partneriaeth integredig i ysgogi newid yn lleol, gan drosi'r ymrwymiadau rhanbarthol yn weithgaredd priodol yn seiliedig mewn ardaloedd. Er enghraifft, bydd Bwrdd Integredig Casnewydd yn goruchwylio datblygiad yr Hwb Iechyd a Lles a fwriedir yn Ringland. Bydd pob un o'r BPSI yn goruchwylio ac yn cefnogi'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (RhGC) gan gyflenwi'r blaenoriaethau a gynlluniwyd.

Yn amlwg, mae angen ystyried gweithio'n integredig ar lefel ranbarthol o ran cyfeiriad strategol, goruchwyliaeth ac effaith. Fodd bynnag, rhaid bwrw ati i weithredu ar lefel ardal (awdurdod lleol), gan gofio'r gwasanaethau, y strwythurau a'r gofynion hynny. Mae gan y cyrff hyn rywfaint o oruchwyliaeth dros Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RhGC) sy'n benodol i BIPAB, sydd â strwythur rheoli o fewn y sefydliad hwnnw, ond sydd angen cysylltiad cryf fel partner ar lefel leol.

Mae 5 Cynllun y Bwrdd Cynllunio Gwasanaeth Integredig ar gyfer y rhanbarthau wedi'u halinio â'r blaenoriaethau'r AAB a'r Cynllun Ardal hwn. Trafodwyd y berthynas gynllunio gan y grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol a bydd pob un o'r Partneriaethau Strategol yn ystyried sut y bydd y rheini sy'n galluogi'r BPSI yn cyflwyno'r blaenoriaethau rhanbarthol ar y cyd, ac yn osgoi dyblygu. Yn ystod 2023/24 bydd y BPRh yn gweithio'n agos gyda BPSI i ganfod nifer fach o ardaloedd allweddol er mwyn mynd ati i weithio ar y cyd a sut y bydd hyn yn gweithio yn y tymor hir ee mae datblygu'r gweithlu yn ymddangos ymhob un o gynlluniau'r BPSI gyda chyfle i weithio'n agosach gyda'r Bwrdd Gweithlu rhanbarthol ar feysydd fel cydweithio a sut y gall RhGC gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol yn lleol.

**Datblygu Clwstwr Carlam**

Mae'r Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol yng Nghymru yn hyrwyddo gweithio di-dor mewn Byrddau Iechyd a gyda phartneriaid, yn cynnwys:

- Symud y ffocws i 'fodel gofal cymdeithasol'.
- Sicrhau mynediad amserol i wasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid i atgyfnerthu gwasanaethau a chyflawni gweithio di -dor ar draws y system gyfan.
- Gweithio ar sail 'unwaith i Gymru', gan gynnwys hyrwyddo a 'chynyddu' mentrau lleol ar draws Cymru gan ddod o hyd i atebion a galluogi swyddogaethau ar lefel genedlaethol.

Ystyrir Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan yn fecanweithiau sy'n galluogi cynrychiolwyr y clystyrau i ddod at ei gilydd ar lefel poblogaeth sirol i gydweithio â chynrychiolwyr byrddau iechyd a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, cynllunwyr a chynrychiolwyr y dinasyddion. Mae'n bwysig bod Clystyrau a Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan yn cael eu galluogi i weithio'n agos ac mewn ffordd gydlynol gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan sicrhau eu bod yn cynnig mwy o werth o lawer ar y cyd nag y byddent ar wahân. Dylai Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan (GCCC) weithredu ar draws ardal yr Awdurdod Lleol i gyflenwi blaenoriaethau'r BPRh sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Ardal a rhaid i asesiadau o anghenion a chynlluniau GCCC oleuo a chael eu goleuo gan asesiadau o anghenion ar lefel rhanbarthol (sy'n swyddogaeth statudol BPRh).

O ystyried bod BPSI wedi cael eu sefydlu ledled Gwent, mae'r BPRh wedi cydnabod bod y BPSI rhanbarthol mewn sefyllfa dda i gyflawni swyddogaethau GCCC ar gyfer Gwent. Bydd y BPRh yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Ardal hwn i sicrhau eu bod yn cydweithio a chynllunio.

**CYNLLUNIAU GWEITHREDU'R THEMAU CRAIDD**

**AWTISTIAETH A DIAGNOSIS NIWRODDATBLYGIADOL**

**Blaenoriaeth/Canlyniad Rhanbarthol fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:**

- **Diagnosio Anhwylder Sbectrwm Awtistig a chael hyd wasanaethau cymorth a gwybodaeth mewn modd mwy amserol.**

**SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT? Ein Dangosyddion o lefel y Boblogaeth.**

| | | |
|---|---|---|
| **Diagnosio Anhwylder Sbectrwm Awtistig a chael hyd i wasanaethau cymorth a gwybodaeth mewn modd mwy amserol cyn ac ar ôl diagnosis** | **Cynyddu ymwybyddiaeth, a'r hyn a ddeellir ac a dderbynnir am niwroamrywiaeth ledled y rhanbarth a chydnabod anghenion cymorth unigol ac amrywiol; trwy hyfforddiant iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach y BPRh, yn ogystal â'r cyhoedd.** | **Cynyddu cyfleoedd a chymorth ymarferol i ddysgu, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio, i gefnogi byw yn annibynnol.** |

**Bydd Grŵp Awtistiaeth Strategol Rhanbarthol Gwent yn datblygu, cydlynu a monitro'r camau i gyflenwi'r cynllun hwn ar ran Partneriaeth Strategol Iechyd meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cwblhawyd crynodeb o sefyllfa'r farchnad yn rhan o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a chytunwyd ar y camau gweithredu isod**

- Diagnosio Anhwylder Sbectrwm Awtistig a chael hyd i wasanaethau cymorth a gwybodaeth mewn modd mwy amserol cyn ac ôl y diagnosis.
- Cynyddu ymwybyddiaeth, a'r hyn a ddeellir ac a dderbynnir am niwroamrywiaeth ledled y rhanbarth a hynny i'r meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach y BPRh, yn ogystal â'r cyhoedd, yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn ogystal â chymunedau.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

- Cynyddu ymwybyddiaeth a'r hyn a ddeellir am yr anghenion cymorth amrywiol sydd gan bobl ar y Sbectrwm Awtistaidd, eu teuluoedd, a'u gofalwyr (efallai bydd rhai angen gofal a chymorth llawn amser, efallai nad yw rhai yn medru siarad a bod ganddynt anghenion cymhleth, efallai y bydd rhai angen cymorth gyda gweithgareddau dydd i ddydd, tra y bydd eraill yn medru byw bywydau hollol annibynnol).
- Cefnogi mwy o gyfleoedd a chymorth ymarferol i ddysgu, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio am dâl, i gefnogi byw'n annibynnol.

| (YR HYN yr ydym yn ei wneud)<br>**Cam** | (PWY)<br>**Asiantaethau sy'n bartneriaid** | (SUT)<br>**y byddwn yn darparu** | (PRYD)<br>**Graddfeydd amser/ cerrig milltir** | **Mesurau Cynnydd**<br>*Faint ydyn ni wedi darparu? A pha mor dda ydyn ni wedi darparu?*<br>*Pa wahaniaeth a wnaed?* |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno'r Strategaeth Awtistiaeth ar gyfer Cymru ar lefel ranbarthol** | Grŵp Strategol Awtistiaeth Gwent<br>Hyrwyddwr Awtistiaeth BPRh<br>GAI<br>LCC | • Bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno a'i monitro trwy gyfarfodydd grŵp strategol awtistiaeth Gwent a gynhelir bob deufis. Ar hyn o bryd mae eu cynllun gweithredu yn cael ei adolygu fel ymateb i ymgysylltiad y cyhoedd yng Ngwent o ran y Cod Ymarfer.<br>• Hyrwyddwr Awtistiaeth y BPRh yn adrodd yn ôl i'r BPRh ar ôl pob cyfarfod Strategol Awtistiaeth, i gyfleu'r datblygiadau diweddaraf.<br>• GAI yn adrodd yn rheolaidd a chyfleu'r diweddaraf i dynnu sylw at arfer da a chanfod unrhyw heriau. | Bob deufis | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn diagnosis amserol.<br><br>Unigolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd yn cael mwy o fynediad uniongyrchol i gefnogaeth arbenigol trwy fodel hunan-atgyfeirio |
| **Rhoi'r Cod Ymarfer Awtistiaeth Ar Waith** | Grŵp Strategol Awtistiaeth Gwent<br>Hyrwyddwr Awtistiaeth BPRh<br>GAI<br>LCC | • Cwblhau archwiliad a hunanasesiad yn erbyn gofynion y Cod Ymarfer.<br>• Canfod bylchau, arfer da, a meysydd o weithio ar y cyd ar draws y rhanbarth gyda chynllun gweithredu.<br>• Hyrwyddwr Awtistiaeth y BPRh yn cael ei gynnwys yn strwythurol rheoli Grŵp Strategol Awtistiaeth Gwent ac yn adrodd yn ôl i'r BPRh ynghylch datblygiadau. | Bob deufis | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn diagnosis amserol.<br><br>Cynnydd yn nifer y bobl y cynigir cymorth iddynt cyn ac ar ôl derbyn diagnosis<br><br>Cael hyd i fwy i Wybodaeth, Cyngor a Chymorth hygyrch |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Arbenigwyr â phrofiad (pobl sydd ag awtistiaeth, ADHD, a chyflyrau niwro-ddatblygiadol eraill) yn ffurfio rhan allweddol o'r grŵp i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd. (Cadeirydd/Is-gadeirydd)<br>• Archwilio sut y gall LCC gefnogi cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff | | Mwy yn manteisio ar hyfforddiant ymwybyddiaeth, a deall a derbyn Awtistiaeth a chyflyrau niwroddatblygiadol; eraill.<br><br>Mwy o bobl yn cael cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth â thâl |
| **Goruchwylio a monitro'r ffordd y cyflenwir modelau gofal Cyllid Integredig Rhanbarthol** | Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent | • Bydd y Bartneriaeth yn goruchwylio ac adolygu cynnydd pob prosiect a ariennir gan y GIR drwy gyfleu'r diweddaraf ar yr eitem sefydlog ymhob cyfarfod.<br>• Bydd rhestr gyflawn o brosiectau cysylltiedig yn cael eu rhannu gydag aelodau i bennu amserlenni cyfarfod/cyflwyniadau<br>• Bydd cyflwyniad cyffredinol ar PowerPoint yn nodi amcanion, cynnydd, rhwystrau a chamau nesaf mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Ardal<br>• Yn dilyn y cyflwyniad, bydd y Cadeirydd ochr yn ochr â'r partneriaid yn diweddaru'r gofrestr risg fel y gall y Cadeirydd gyfleu'r diweddaraf i'r grŵp Arweinyddiaeth a rhannu cerdyn adrodd y bartneriaeth.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cynnwys trosolwg o gamau cyflenwi'r GIR fel rhan o gyflwyniad blynyddol i'r BPRh. | Eitem sefydlog ymhob cyfarfod | Cefnogi cyflwyno modelau Gofal Cenedlaethol a monitro pa mor effeithiol yw'r prosiectau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygu cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod meysydd i gydweithio a dyrannu adnoddau.** | BPSI<br>RhGC<br>ALl<br>BIPAB<br>BGC | • Adolygu a chanfod meysydd i gydweithio<br>• BIPAB CTCI<br>• BPSI, RhGC<br>• Cynlluniau Gwella Corfforaethol yr Awdurdod Lleol<br>• Cynllun Llesiant rhanbarthol y BGC a chyflawni egwyddorion Marmot<br>• Nodi sut mae gwaith yn cyfrannu a chyflawni'r Fframwaith Canlyniad Cenedlaethol | Chwarterol | Cynyddu adnoddau<br>Rhaglenni gwaith sengl<br><br>Canfod cyfleoedd i gydgomisiynu |

## GOFALWYR DI-DÂL, GOFALWYR IFANC A GOFALWYR SY'N OEDOLION IFANC

**Blaenoriaeth/Canlyniad Rhanbarthol fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:**

- **Cefnogi gofalwyr di -dâl i ofalu trwy seibiannau hyblyg, cael hyd i'r wybodaeth gywir, cefnogaeth gan gymheiriaid i gymheiriaid, cynllunio gofal mewn modd effeithiol a thrwy helpu'r cyhoedd i ddeall mwy.**
- **Gwella llesiant gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc a lliniaru yn erbyn yr effeithiau hirdymor.**

**SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT? Ein Dangosyddion o lefel y Boblogaeth.**

| | | |
|---|---|---|
| **Nifer y grantiau bach a weinyddwyd** | **Nifer y sefydliadau a enillodd achrediad CFE** | **Nifer yr ysgolion a gyflawnodd wobr YCIS** |

**Bydd y Bwrdd Gofalwyr rhanbarthol yn datblygu, cydlynu a monitro'r ffordd y cyflenwir y cynllun hwn ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cwblhawyd crynodeb o sefyllfa'r farchnad yn rhan o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a chytunwyd ar y camau erbyn hyn.**

1. Mae dal i fod angen cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch anghenion gofalwyr, ac i staff rheng flaen allu adnabod pan fydd pobl yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ac angen cael eu cyfeirio at wybodaeth, yn enwedig gofalwyr ifanc
2. Mae cefnogaeth gan gymheiriaid i gymheiriaid a'r ddarpariaeth seibiant yn derbyn sylw parhaus fel anghenion sydd o flaenoriaeth i ofalwyr ac mae angen cynyddu'r gefnogaeth drwy partneriaid trydydd sector a phartneriaid cymunedol er mwyn cynyddu cyfleoedd cyfeillio a grwpiau cymunedol.

Pethau Sy'n Symbylu'r Polisi

Mae Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yng Nghymru (Mawrth 2021) yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol diwygiedig a ganlyn ar gyfer gofalwyr di-dâl:

- canfod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl, darparu gwybodaeth, cyngor, a chymorth, cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu a chefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle. Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl [HTML] | GOV.WALES
- Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofalwyr a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl 2021 [HTML] | GOV.WALES

| (Yr HYN yr ydym yn ei wneud) **Cam** | (PWY) **Asiantaethau sy'n bartneriaid** | (SUT) **y byddwn yn darparu** | (PRYD) **Graddfeydd amser/ cerrig milltir** | **Mesurau Cynnydd** *Faint ydyn ni wedi darparu?. A pha mor dda ydyn ni wedi darparu?* *Pa wahaniaeth a wnaed?* |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno Blaenoriaethau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr, fel y nodir yn y strategaeth ar gyfer gofalwyr di - dâl a'r Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol** | Bwrdd Gofalwyr | • Cydlynu ac adolygu'r cynllun grantiau bach.<br>• Cyflwyno cynllun Achredu Gweithwyr sy'n Ystyriol o Ofalwyr.<br>• Hyrwyddo'r Hwb Gofalwyr a Model Lloeren.<br>• Parhau â rhaglen waith hyrwyddo MT.<br>• Parhau o ledaenu Cynllun Gwobrwyo Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion a Chynllun Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc.<br>• Ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch gofalwyr mewn ysgolion i ganfod gofalwyr ifanc.<br>• Archwilio opsiynau i rannu arfer da sydd eisoes yn bodoli, yn fwy eang a chefnogi ffyrdd eraill sy'n canfod a chynnig cefnogaeth i ofalwyr di-dâl drwy'r broses rhyddhau o'r ysbyty. | Cyfarfodydd chwarterol | • Nifer y grantiau bach a weinyddwyd.<br>• Nifer y sefydliadau a enillodd achrediad CFE.<br>• Nifer yr ysgolion a gyflawnodd gwobr GIMY. |
| **Datblygu Rhwydwaith Lles Integredig i Gefnogi Gofalwyr Di - dâl** | Bwrdd Gofalwyr<br>BPSI<br>RhGC | • Asesu a chanfod arfer da o fewn rolau Cysylltwyr Cymunedol.<br>• Sicrhau bod gwybodaeth a chyngor cywir ar gael drwy GCh, Dewis, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.<br>• Cefnogi a meithrin gwydnwch cymunedol a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol, gan droi at ffynonellau cymorth yn y gymuned.<br>• Adolygu hybiau iechyd a lles a chanfod hybiau sy'n cael eu cydlynu'n effeithiol. | Cyfarfod chwarterol | • Mwy o ofalwyr di-dâl yn gwybod mwy. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Archwilio atebion o ran gwirfoddoli a hyrwyddo ac ymestyn y cynllun gwirfoddoli 'Ffrind i Mi' yn y rhanbarth. | | |
| **Gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu cefnogaeth effeithiol i Ofalwyr, yn cynnwys**<br>• **Seibiannau hyblyg**<br>• **Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth**<br>• **Cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc**<br>• **Eiriolaeth** | Bwrdd Gofalwyr<br>GAVO<br>CGT | • Gweithio gydag ALI a phartneriaid yn y Trydydd Sector i gynnig atebion i weithredu modelau gofal a chefnogi rhyddhau o'r ysbyty.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth cymar-i-gymar.<br>• Cydlynu a gweinyddu grantiau seibiant a nodi arfer gorau.<br>• Datblygu cyfleoedd drwy rwydweithiau Gofalwyr Ifanc. | Cyfarfodydd chwarterol | • Nifer y rhwydweithiau cymheiriaid i gymheiriaid.<br>• Nifer yr oriau seibiant. |
| **Sicrhau fod gweithredu'r strategaeth gofal yn agosach at y cartref yn cynyddu'r gefnogaeth ar lefel gymunedol i ofalwyr di -dâl** | Bwrdd Gofalwyr<br>BIPAB/<br>BPSI<br>RhGC<br>Tai | • Sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi yn y y prosesau rhyddhau.<br>• Cyfeirio gofalwyr at wasanaethau cymorth perthnasol.<br>• Darparu cyfleoedd hyfforddi i staff mewn perthynas â gofalwyr di -dâl | Cyfarfod chwarterol | • Nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant/ymwybyddiaeth |
| **Goruchwylio a monitro'r ffordd y cyflenwir modelau gofal Cyllid Integredig Rhanbarthol** | Bwrdd Gofalwyr | • Bydd y Bwrdd yn goruchwylio ac yn adolygu cynnydd yr holl brosiectau a ariennir gan GIRh trwy gyfleu'r diweddaraf yn ystod eitem sefydlog ym mhob cyfarfod.<br>• Bydd rhestr lawn o'r prosiectau cysylltiedig yn cael eu rhannu â'r aelodau i bennu amserlen y cyfarfod/cyflwyniadau.<br>• Bydd cyflwyniad PowerPoint cyffredinol yn nodi amcanion, cynnydd, rhwystrau a chamau nesaf i gyflawni'r Cynllun Ardal. | Cyfarfod chwarterol | Mesurau perfformiad unigol wedi eu nodi yng nghynigion y prosiect<br><br>Cefnogi cyflawni Modelau Gofal cenedlaethol a monitro pa mor effeithiol yw'r prosiectau. |




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Yn dilyn y cyflwyniad, bydd y Cadeirydd ynghyd a phartneriaid yn diweddaru cofrestr risg fel y gall y cadeirydd gyfleu'r diweddaraf i'r grŵp Arweinyddiaeth a rhannu cerdyn adrodd ar gyfer y bartneriaeth.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cynnwys trosolwg o gamau cyflenwi'r GIR fel rhan o gyflwyniad blynyddol i'r BPRh. | | |
| **Adolygu cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod meysydd i gydweithio a dyrannu adnoddau.** | BPSI<br>RhGC<br>ALl<br>BIPAB<br>BGC | Adolygu a chanfod meysydd i gydweithio<br>• BIPAB CTCI<br>• BPSI, RhGC<br>• Cynlluniau Gwella Corfforaethol Awdurdodau Lleol<br>• Cynllun Llesiant rhanbarthol y BGC a chyflawni egwyddorion Marmot<br>• Nodi sut mae gwaith yn cyfrannu a chyflawni'r Fframwaith Canlyniad Cenedlaethol | Chwarterol | Cynyddu adnoddau<br>Rhaglenni gwaith sengl<br><br>Canfod cyfleoedd i gydgomisiynu |

# PLANT A PHOBL IFANC

**Blaenoriaeth/Canlyniad Rhanbarthol fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:**

- **Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth trwy ymyrraeth gynharach, cefnogaeth yn y gymuned, a lleoliadau yn agosach at y cartref**
- **Sicrhau iechyd meddwl a lles emosiynol i blant a phobl ifanc drwy weithio mewn partneriaeth yn effeithiol gan liniaru effaith pandemig Covid-19 yn y tymor hir**

**SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT? Ein Dangosyddion o lefel y Boblogaeth.**

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| **Cynyddu nifer y partneriaid sy'n mabwysiadu a chyflawni egwyddorion NEST** | **Cynyddu ymwybyddiaeth, nifer yr atgyfeiriadau a'r cymorth drwy baneli lles GOFOD** | **Lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir yn unol ag agenda LIC ar 'Ddileu'** |

**Bydd y Bwrdd Plant a Theuluoedd rhanbarthol yn datblygu, cydlynu a monitro'r ffordd y cyflenwir y cynllun hwn ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cwblhawyd crynodeb o sefyllfa'r farchnad yn rhan o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a chytunwyd ar y camau erbyn hyn.**

1. Mae angen parhau i atgyfnerthu gwasanaethau a phartneriaethau o ran dull un drws blaen, er mwyn lleihau trosglwyddo rhwng sefydliadau a sefydlu o ymyrryd a delio ag anghenion lluosog 'mewn trefn'.
2. Bydd y BPRh yn parhau i weithredu egwyddorion NYTH ar draws y gwasanaethau, a chadw ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a theuluoedd wrth i ni symud at ddull system-gyfan.
3. O ystyried rhaglen newydd sydd o flaenoriaeth i'r llywodraeth i ddileu elw mewn gofal preswyl i blant sy'n derbyn gofal, bydd y BPRh yn cefnogi'r agenda hon a'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n helpu i leihau nifer y blant sy'n derbyn gofal.

- Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2027 yn cynnwys sawl ymrwymiad sy'n disgrifio gweledigaeth newydd i drawsnewid gwasanaethau plant i gefnogi'r uned deuluol i aros gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl, gyda gwasanaethau lleol yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i helpu i ddylunio a bwrw ymlaen ag atebion y teulu i'w problemau.

- Fel hyn, bydd gan y teuluoedd y sgiliau, profiad a’r gwytnwch i weithio drwy eu hanawsterau, a bydd angen i llai o blant o lawer ddod i gyswllt â’r system ofal.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

| (Yr HYN yr ydym yn ei wneud) **Cam** | (PWY) **Asiantaethau sy'n bartneriaid** | (SUT) **y byddwn yn darparu** | (PRYD) **Graddfeydd amser/ cerrig milltir** | **Mesurau Cynnydd** |
|---|---|---|---|---|
| **Bydd y Bwrdd Plant a Theuluoedd yn datblygu ymateb ar y cyd ac atebion o ran cyflenwi Rhaglen Dileu Llywodraeth Cymru sy'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth** | BPaTh | • Datblygu grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer llety diogel ar y cyd i ddatblygu opsiynau preswyl gyda phrosesau integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Cysylltu â phartneriaeth Iechyd Tai a Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu atebion cyfalaf.<br>• Ystyried cyfleoedd comisiynu ar y cyd ar draws gofal preswyl a maeth. | Gorffennaf 2023. | • Lleoliadau yn nes at y cartref. |
| **Cyflenwi ac ymwreiddio fframwaith NYTH ar draws y rhanbarth** | BPaTh | • Datblygu hunanasesiad i gefnogi NYTH ar draws y partneriaid.<br>• Datblygu cynllun NYTH rhanbarthol.<br>• Eitem sefydlog i adrodd i BPaTh i ganfod arfer da a heriau.<br>• Archwilio sut y gall NYTH gefnogi'r ddarpariaeth gyffredinol yn unol â Chynllun Llesiant y BGC, egwyddorion Marmot, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. | Cyfarfodydd chwarterol | • Mwy o bartneriaid yn mabwysiadau egwyddorion NYTH. |
| **Cyflenwi atebion fel partneriaeth ar gyfer Cymorth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN)** | Bwrdd ISCAN<br><br>Is -grŵp Pontio IMaAD | • Datblygu gwasanaethau therapiwtig integredig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â ffocws parhaus ar atal ac ymyrraeth gynnar. | Cyfarfodydd chwarterol | • Mwy o drosglwyddiadau effeithiol rhwng y gwasanaethau i blant ac oedolion. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gwella trefniadau trosglwyddo trwy adnabod arfer da a chyfuno adnoddau partneriaeth.<br>• Adolygu prosesau gofal iechyd parhaus i wella gweithio mewn partneriaeth. | | |
| **Cyd-gyflenwi ar gyfer Iechyd meddwl mewn partneriaeth â phartneriaeth IMaAD** | BPaTh a IMaAD | • Datblygu Tasglu ar y cyd i oruchwylio a chydlynu cynllun gweithredu T4MH, gyda ffocws ar ddarpariaeth CAMHS wedi'i alinio â CTCI BIPAB.<br>• Eitem sefydlog mewn cyfarfodydd BPaTh.<br>• Cefnogi gweithredu dull ysgol gyfan o hyrwyddo lles meddyliol ac emosiynol. | O fewn deufis o gyhoeddi'r strategaeth newydd. | Gweler Strategaeth T4MH. |
| **Goruchwylio a monitro'r ffordd y cyflenwir modelau gofal Cyllid Integredig Rhanbarthol.** | BPaTh | • Bydd y bartneriaeth yn goruchwylio ac yn adolygu cynnydd yr holl brosiectau a ariennir gan y GIR trwy gyfleu'r diweddaraf mewn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod.<br>• Bydd rhestr lawn o brosiectau cysylltiedig yn cael eu rhannu gydag aelodau i bennu amserlen y cyfarfodydd/cyflwyniadau<br>• Bydd cyflwyniad PowerPoint cyffredinol yn nodi amcanion, cynnydd, rhwystrau a chamau nesaf, o ran cyflawni'r Cynllun Ardal<br>• Yn dilyn y cyflwyniad, bydd y Cadeirydd ochr yn ochr â'r partneriaid yn diweddaru'r gofrestr risg fel y gall y Cadeirydd gyfleu'r diweddaraf i'r grŵp Arweinyddiaeth a rhannu cerdyn adrodd y bartneriaeth. | Cyfarfod chwarterol | Mesurau cynnydd y prosiect wedi eu nodi ym mhroffiliau unigol prosiect CIR |

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd y Cadeirydd yn cynnwys trosolwg o gamau cyflenwi'r GIR fel rhan o gyflwyniad blynyddol i'r BPRh | | |
| **Adolygu cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod meysydd i gydweithio a dyrannu adnoddau.** | BPSI<br>RhGC<br>ALI<br>BIPAB<br>BGC | Adolygu a nodi meysydd i gydweithredu<br>BIPAB CTCI<br>• BPSI, RhGC<br>• Cynlluniau Gwella Corfforaethol yr Awdurdod Lleol<br>• Cynllun Llesiant rhanbarthol y BGC a chyflawni egwyddorion Marmot<br>• Nodi sut mae gwaith yn cyfrannu a chyflawni'r Fframwaith Canlyniad Cenedlaethol | Chwarterol | Cynyddu adnoddau<br>Rhaglenni gwaith sengl<br><br>Canfod cyfleoedd i gydgomisiynu |

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# DEMENTIA

**Blaenoriaeth/Canlyniad Rhanbarthol fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:**

- **Gwella canlyniadau i bobl sy'n dioddef o ddementia a'u gofalwyr.**

**SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT? Ein Dangosyddion o lefel y Boblogaeth.**

| | | |
|---|---|---|
| | | • Adolygu hybiau iechyd a lles a chanfod hybiau sy'n cael eu cydlynu'n effeithiol.<br>• Archwilio atebion i wirfoddoli a chysylltiadau ag ysgolion i hyrwyddo Cymunedau sy'n ystyriol o oedran.<br>• Hyrwyddo ac ymestyn cynllun gwirfoddoli Ffrind i Mi. | | a wnaed. |
| **Goruchwylio a monitro'r ffordd y cyflenwir modelau gofal Cyllid Integredig Rhanbarthol a'r cyfalaf sydd ar gael i'w wario** | Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent | • Bydd y Bartneriaeth yn goruchwylio ac adolygu cynnydd pob prosiect a ariennir gan y GIR drwy gyfleu'r diweddaraf ar yr eitem sefydlog ymhob cyfarfod.<br>• Bydd rhestr gyflawn o brosiectau cysylltiedig yn cael eu rhannu gydag aelodau i bennu amserlenni cyfarfod/cyflwyniadau<br>• Bydd cyflwyniad cyffredinol ar PowerPoint yn nodi amcanion, cynnydd, rhwystrau a chamau nesaf mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Ardal<br>• Yn dilyn y cyflwyniad, bydd y Cadeirydd ochr yn ochr â'r partneriaid yn diweddaru'r gofrestr risg fel y gall y Cadeirydd gyfleu'r diweddaraf i'r grŵp Arweinyddiaeth a | Eitem sefydlog, pob cyfarfod | • Cefnogi cyflwyno Modelau Gofal cenedlaethol a monitro pa mor effeithiol yw prosiectau. |




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhannu cerdyn adrodd y bartneriaeth.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cynnwys trosolwg o gamau cyflenwi'r GIR fel rhan o gyflwyniad blynyddol i'r BPRh. | | |
| **Adolygu cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod meysydd i gydweithio a dyrannu adnoddau.** | BPSI<br>RhGC<br>ALl<br>BIAAAB<br>BGC | Adolygu a chanfod meysydd i gydweithio<br>• BIPAB CTCI<br>• BPSI, RhGC<br>• Cynlluniau Gwella Corfforaethol yr Awdurdod Lleol<br>• Cynllun Llesiant rhanbarthol y BGC a chyflawni egwyddorion Marmot<br><br>Nodi sut mae gwaith yn cyfrannu a chyflawni'r Fframwaith Canlyniad Cenedlaethol. | Chwarterol | Cynyddu adnoddau<br>Rhaglenni gwaith sengl<br><br>Canfod cyfleoedd i gydgomisiynu |

## DATBLYGU’R GWEITHLU

**Blaenoriaeth/Canlyniad Rhanbarthol fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:**

- **Hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a chadw a gwella’r gefnogaeth ar gyfer y gweithlu presennol.**
- **Parhau i ddatblygu’r Consortiwm Colegau yn y rhanbarth i hyrwyddo a recriwtio myfyrwyr i’r sector.**

**SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT? Ein Dangosyddion o lefel y Boblogaeth.**

|  |  |  |
|---|---|---|
| **Cynyddu nifer y lleoliadau i fyfyrwyr ar draws partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol** | **Sicrhau hyfforddiant yn y gweithle a chymwysterau drwy grant SCWDP** | **Cynyddu camau i hyrwyddo recriwtio i’r maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy ymgyrch Gofalwn** |

**Bydd y Bwrdd Gweithlu rhanbarthol yn datblygu, cydlynu a monitro’r ffordd y cyflenwir y cynllun hwn ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cwblhawyd crynodeb o sefyllfa’r farchnad yn rhan o’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a chanfuwyd camau gweithredu ar draws themâu eraill yn ymwneud â phoblogaeth**

10. Bydd y Bwrdd Gweithlu yn sicrhau bod datblygu’r gweithlu yn cael blaenoriaeth ar draws y partneriaethau strategol eraill gan gydlynu a monitro camau i leihau dyblygu a goruchwylio’r datblygu mewn modd effeithiol ar draws y rhanbarth.
11. Bydd y Bwrdd Gweithlu yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni gweledigaeth y Strategaeth Gweithlu Integredig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
12. Bydd y Bwrdd Gweithlu yn creu gweithlu medrus sy’n cael ei werthfawrogi, trwy ddatblygu sgiliau a doniau'r rheini yn ein cymunedau lleol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
13. Bydd y Bwrdd Gweithlu yn sicrhau bod y gweithlu mewn sefyllfa i ddarparu a chofnodi gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, i ddiwallu ein dyletswydd statudol dan ‘Cynnig Gweithredol’ Llywodraeth Cymru.

| (YR HYN yr ydym yn ei wneud) **Cam** | (PWY) **Asiantaethau sy'n bartneriaid** | (SUT) **y byddwn yn darparu** | (PRYD) **Graddfeydd amser/ cerrig milltir** | **Mesurau Cynnydd** *Faint ydyn ni wedi darparu. A pha mor dda ydyn ni wedi darparu? Pa wahaniaeth a wnaed?* |
|---|---|---|---|---|
| **Goruchwylio'r gwaith o gyflwyno rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol** | 5 ALl Gwent<br>BIPAB<br>GCC<br>LCC | Parhau i sicrhau bod trefniadau ymgysylltu rhanbarthol yn adlewyrchu trefniadau gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a sicrhau bod gan y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sgiliau angenrheidiol<br>Cyflawni'r blaenoriaethau allweddol am ddatblygiad y gweithlu a nodwyd yn y SCWWDP 2023/24 gan gynnwys cwrs hyfforddi effeithiol, cyfleoedd i wella cymwysterau a datblygiad proffesiynol | Bob yn ddeufis | Cynnydd yn nifer yr ymarferwyr sy'n cwblhau hyfforddiant.<br><br>Cynnydd yn nifer y gweithluoedd cymwys. |
| **Cydlynu a hyrwyddo gyrfaoedd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Consortiwm Colegau** | Coleg Gwent<br>PDC<br>5 ALl Gwent<br>BIPAB<br>LCC | Parhau i hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid drwy'r Consortiwm Colegau.<br><br>Datblygu fframwaith i hwyluso lleoliadau myfyrwyr o fewn timau gofal cymdeithasol yr ALl a thimau gofal BIPAB.<br><br>Ychwanegu gwerth i ddysgu drwy ymgysylltu parhaus â'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, ei weithlu a mentrau recriwtio lleol. | Cyfarfod rheolaidd | Cynyddu nifer y ceisiadau gan fyfyrwyr.<br><br>Cynyddu nifer y lleoliadau i fyfyrwyr.<br><br>Cynyddu nifer y prentisiaethau i fyfyrwyr.<br><br>Hwyluso digwyddiadau '*Placement to Progression'* gyda'r ALl a darparwyr lleol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau bod materion a nodir gan Rhwydwaith Partneriaethau Strategol a Llesiant Integredig yn cael eu cydlynu ar draws y rhanbarth.** | 5 ALl Gwent<br>BIPAB<br>SCW | Sefydlu mecanwaith ar gyfer adborth ynghylch materion y gweithlu o'r partneriaethau strategol fel cam cyntaf.<br><br>Cynnwys eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Gweithlu i adolygu cynlluniau BPSI ac RhGC i ganfod gofynion a chyfleoedd y gweithlu.<br><br>Cefnogi integreiddio a thrawsnewid y gweithlu drwy fodel Hwb Integredig. | Cyfarfod bob yn ddeufis | Mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar y cyd ar gyfer y gweithlu<br>Datblygu Hybiau Integredig. |
| **Sicrhau aliniad gyda 7 thema ac uchelgeisiau allweddol AaGIC a GCC: Cymru Iachach, Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd, a Gofal Cymdeithasol** | 5 ALl Gwent<br>BIPAB<br>GCC | Datblygu fframwaith strategol y gweithlu i Went, gan greu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor ar draws y rhanbarth.<br><br>Cyflwyno cynllun gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar cyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.<br><br>Cynyddu'r camau i recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi'r gweithlu fel modd o wella capasiti ac fel llwybr tuag at fyd gwaith. | Cyfarfod bob yn ddeufis | Cylch Gwaith y bwrdd Gweithlu, alinio â themâu ac uchelgeisiau'r strategaeth cenedlaethol.<br><br>Deall mwy am iechyd meddwl.<br><br>Mwy o wirfoddolwyr yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol |
| **Goruchwylio a monitro'r ffordd y cyflenwir modelau gofal Cyllid Integredig Rhanbarthol pan maent yn gysylltiedig â'r Gweithlu** | 5 ALl Gwent<br>BIPAB<br>GCC | • Bydd y Bartneriaeth yn goruchwylio ac adolygu cynnydd pob prosiect a ariennir gan y GIR drwy gyfleu'r diweddaraf ar yr eitem sefydlog ymhob cyfarfod.<br>• Bydd rhestr gyflawn o brosiectau cysylltiedig yn cael eu rhannu gydag aelodau i bennu amserlenni cyfarfod/cyflwyniadau | Eitem sefydlog mewn cyfarfodydd misol. | Mesurau unigol wedi eu cynnwys ym mriffiau'r prosiectau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd cyflwyniad cyffredinol ar PowerPoint yn nodi amcanion, cynnydd, rhwystrau a chamau nesaf mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Ardal<br>• Yn dilyn y cyflwyniad, bydd y Cadeirydd ochr yn ochr â'r partneriaid yn diweddaru'r gofrestr risg fel y gall y Cadeirydd gyfleu'r diweddaraf i'r grŵp Arweinyddiaeth a rhannu cerdyn adrodd y bartneriaeth.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cynnwys trosolwg o gamau cyflenwi'r GIR fel rhan o gyflwyniad blynyddol i'r BPRh. | | |
| **Cefnogi camau i ddenu, recriwtio a chadw gweithlu sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent.** | 5 ALl Gwent<br>BIPAB<br>GCC<br>Coleg Gwent<br>PDC<br>LCC | Sefydlu is-grŵp penodol i bennu cwmpas:<br>• Dull cydweithredol o recriwtio/marchnata.<br>• Cymedroli'r cystadlu am staff rhwng ALl, BIPAB a darparwyr a gomisiynir.<br>• Ystyried atebion i gefnogi lles personol y staff. | Sefydlwyd Tach. 22. | Datblygu 'bws recriwtio' a threialu ffurflen ymholi ranbarthol |
| **Adolygu cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ganfod meysydd i gydweithio a dyrannu adnoddau.** | BPSI<br>RhGC<br>ALl<br>BIPAB<br>BGC | Adolygu a chanfod meysydd i gydweithio<br>• BIPAB CTCI<br>• BPSI, RhGC<br>• Cynlluniau Gwella Corfforaethol yr Awdurdod Lleol<br>• Cynllun Llesiant rhanbarthol y BGC a chyflawni egwyddorion Marmot<br><br>Nodi sut mae gwaith yn cyfrannu a chyflawni'r Fframwaith Canlyniad Cenedlaethol. | Chwarterol | Cynyddu adnoddau<br>Rhaglenni gwaith sengl<br><br>Canfod cyfleoedd i gydgomisiynu |

**Atodiad 1: Sbardunau Polisi a'r Gwaith Sy'n Mynd Rhagddo ar Hyn o Bryd (Mawrth 2023)**

## Sbardunau Polisi

- **Rhan 2 o'r Cod Ymarfer yn Neddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant**
- **Cynllun Cyflawni Awtistiaeth 2021-2022**
- **Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth 2021**
- **Deddf GIG Cymru**

Cafodd y Cod Ymarfer Awtistiaeth ei weithredu o fis Medi 2021 gan adeiladu ar Strategaeth Awtistiaeth i Gymru. Mae'n atgyfnerthu'r dyletswyddau presennol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006, yn hytrach na bil awtistiaeth ar wahân. Drwy gydol pandemig Covid-19, fe wnaeth y BPRh dynnu sylw at yr heriau a wynebwyd gan bobl awtistig a niwroamrywiol a'r potensial am yr angen i gael mwy o gefnogaeth. Grŵp Strategol Awtistiaeth Gwent gyda chefnogaeth y BPRh, yw'r cyntaf yng Nghymru i gynnal digwyddiad i randdeiliaid gydag unigolion niwroamrywiol. Teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i drafod y Cod Ymarfer, a'r hyn y mae'n ei olygu i'r gofal a'r gefnogaeth a roddir i bobl. Yn y gweithdai, canfuwyd yr hyn sydd yn gweithio'n dda, y meysydd sydd angen eu gwella a'r bylchau yn y ddarpariaeth, er mwyn helpu i gyd-gynhyrchu a llywio'r gefnogaeth a roddir yn y dyfodol. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt ynghylch enw'r grŵp llywio i gynnwys niwroamrywiaeth a'i rhaglen waith.

**Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yng Ngwent**

- Yng Ngwent mae'r gyfradd atgyfeirio at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn arwain at amseroedd aros sylweddol i gael asesiad diagnostig o ASA a chymorth ar ôl cael diagnosis. Mae cyllid nad yw'n rheolaidd wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â hyn ac mae rhaglen ar waith (tan ddiwedd mis Mawrth 23). Mae'n cynnig clinigau asesu diagnostig ychwanegol, apwyntiadau i gynnig cymorth yn dilyn diagnosis, clinigau 'galw heibio' a chyrsiau ôl-ddiagnostig. Mae'r cyfan yn ychwanegol at y gwasanaeth craidd a ddarperir a chynhelir hwy yn bennaf gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Mae nifer o glinigwyr yn Nhimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Gwent wedi cwblhau hyfforddiant ar asesiadau i ddiagnosio ASA. Mae hyn yn caniatáu i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau gofal eilaidd i gael diagnosis a chefnogaeth mewn modd amserol.
- Penodwyd 4 Ymarferwr Niwroddatblygiadol arall i'r gwasanaethau gofal eilaidd. Mi fydd yr unigolion hyn yn allweddol iawn wrth ddatblygu a chyflawni mwy o wasanaethau niwroddatblygiadol. Ar hyn o bryd, maent yn datblygu pecynnau seicoaddysgol ar gyfer y rheini a gafodd eu hatgyfeirio am asesiad ND, cyn ac ar ôl cael diagnosis.
- Parheir i ddatblygu adnoddau ac maent ar gael ar wefan Melo. Gellir atgyfeirio pobl at yr adnoddau hyn, ond maent hefyd ar gael i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella sgiliau a gwybodaeth y staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae cwrs ***Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth*** wedi cael ei ddatblygu ac ar hyn o bryd mae'n cael ei rhannu gyda staff. Mae BIPAB hefyd

wrthi ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, mewn perthynas â darparu modiwlau e-ddysgu i staff – Mae ***Deall Awtistiaeth*** ar gael ar hyn o bryd, a bydd ***Deall Cyfathrebu Effeithiol*** *ac* ***Awtistiaeth*** ar gael cyn hir.

- Mae gennym Grŵp Llywio Awtistiaeth Rhanbarthol yma yng Ngwent, sy'n cael ei arwain gan rieni, gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Awtistiaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dyma grŵp amlasiantaeth sydd â phartneriaid o'r Awdurdod Lleol, BIPAB a'r Sector Annibynnol/Trydydd Sector. Mae wrthi ar hyn o bryd yn atgyfnerthu cysylltiadau â LCC, fel y gallant wella'r ffordd y maent yn bodloni anghenion amrywiol o ran tai a chymorth.

**Atodiad 2: Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol eraill**

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cysylltu, ac yn cysoni blaenoriaethau â phartneriaethau a chynlluniau strategol eraill. Mae yna sawl partneriaeth strategol a fydd yn rhannu blaenoriaethau tebyg, fydd yn cynnwys cefnogi'r un garfan o bobl mewn cymunedau lleol. Mae'n hollbwysig nad yw gwasanaethau'n cael eu dyblygu, ond yn hytrach, bod synergedd rhwng y partneriaethau, y cynlluniau, y gweithlu ac adnoddau. Mae'r partneriaethau a'r blaenoriaethau wedi eu nodi isod; a

***'Bydd y BPRh yn sefydlu dulliau llywodraethu ehangach i sicrhau bod yr holl bartneriaethau yn gwybod am y blaenoriaethau, a pha bartneriaeth fydd yn arwain agenda, a lle byddant yn ategu at yr agenda ac yn ei chefnogi '.***

**Cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent drwy uno'r 5 BGC dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.Sefydlwyd BGC ledled Cymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal drwy atgyfnerthu cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Ngwent.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhannu egwyddorion tebyg â sawl strategaeth a deddfwriaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn rhannu egwyddorion sydd bron yn union yr un fath â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y prif wahaniaeth rhwng y deddfau yw'r ffrâm amser. Mae'r cynllun ardal o dan y Ddeddf yn adlewyrchu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, ac mae'n cwmpasu cyfnod o 3-5 mlynedd wedi'i seilio ar gylch etholiadol. Mae'r Asesiad Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cwmpasu cyfnod hirach.

Datblygwyd Asesiadau Llesiant rhanbarthol ochr yn ochr â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth i sicrhau bod unrhyw ddyblygu yn cael ei osgoi, gan sicrhau y sefydlir dull a rennir i wella llesu. Mae mwy o wybodaeth am yr asesiadau lles i'w gweld ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Blaenoriaethau Cynllun Llesiant y BGC (i gynnwys)

- Amcan 1 - Gwent sy'n deg a chyfartal i bawb.
- Amcan 2 –Gwent sydd â chymunedau cyfeillgar, diogel a hyderus.
- Amcan 3 – Gwent lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella.

Sefydlwyd rhwydwaith strategol o reolwyr a phartneriaid BGC i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu wrth ddatblygu cynlluniau llesiant unigol a chyfle i'r BGC gynllunio ar y cyd yn ôl y blaenoriaethau rhanbarthol.

Mae Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent (GALISG) yn cynnwys partneriaid yn Heddlu Gwent, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân De Cymru. Cynrychiolir y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol

hefyd ar y grŵp gan hyrwyddo dull cyson tuag at y cynlluniau lle gellir eu darllen a chyfeirio'n hawdd atynt ochr yn ochr i hyrwyddo cysondeb. Mapio blaenoriaethau'r cynllun llesiant yn erbyn y cynllun ardal a diffiniad cyffredin o'r termau a ddefnyddir yn y cynlluniau - fydd yn sail i femorandwm dealltwriaeth. Wrth symud ymlaen bydd angen alinio'r mesurau llwyddiant gyda'r nod yn y pen draw i osgoi dyblygu ar draws y cynlluniau a dosrannu'r blaenoriaethau ar draws y BPRh a'r BGC.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn hefyd yn alinio'r Cynllun Ardal hwn i gynllun Llesiant y BGC. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent i sicrhau eglurhad pan fydd y BPRh yn arwain ar flaenoriaeth, pan fydd y BGC yn arwain ar flaenoriaeth a lle rhennir y blaenoriaethau.

## Byrddau Diogelu

O'r 6ed o Ebrill 2016, daeth Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan a Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru yn fyrddau statudol fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ffurfiwyd y byrddau yn 2011 i gwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r ddau fwrdd wedi datblygu Rhaglenni gwaith sy'n sicrhau effeithiolrwydd arfer diogelu sy'n effeithiol yn ystod cyfnod gweithredu a thrawsnewid Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r blaenoriaethau unigol wedi eu nodi isod a bydd y BPRh yn cefnogi camau i gyflawni'r blaenoriaethau hyd drwy gydweithio.

Blaenoriaethau'r Bwrdd Oedolion:

- Targedu ymyraethau ar gyfer oedolion sydd mewn perygl o fathau penodol o gamdriniaeth.
- Gwella Ansawdd Gofal ar draws y rhanbarth.
- Gwella effeithiolrwydd y bwrdd Diogelu oedolion Rhanbarthol.

Blaenoriaethau'r Bwrdd Plant:

- Pan gyfaddawdir ar allu i fagu plant, lleihau'r effeithiau ar les plant.
- Gwella ein gwaith gyda'r glasoed sy'n ymddwyn mewn modd mentrus.
- Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.

## Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent

Bydd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent yn cyflwyno Cynllun Cyflawni blynyddol manwl yn nodi'r gweithgareddau a gynigir i gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol i fodloni blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, o safbwynt plismona. Bydd swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn cyflwyno Cynllun Busnes fydd yn cyfleu ei gyfraniad i gyflawni'r blaenoriaethau. Adroddir yn flynyddol ar

ganlyniadau'r cynnydd yng nghyd-destun y gweithgareddau a hynny ar ffurf adroddiad blynyddol gan y CHaTh. Mae'r blaenoriaethau o ran plismona wedi eu nodi isod:

- **Atal Troseddu –** Cymryd camau i atal a lleihau troseddau drwy weithio gyda sefydliadau a chymunedau i fynd i'r afael â throseddau sy'n peri'r bygythiad, y niwed a'r risg fwyaf, yn enwedig troseddau yn erbyn y mwyaf bregus.
- **Cefnogi Dioddefwyr -** Darparu cefnogaeth ragorol i bob dioddefwr gan ganolbwyntio'n benodol ar atal mwy o niwed difrifol.
- **Cydlyniant Cymunedol –** Sicrhau bod yr Heddlu, partneriaid a fy swyddfa yn ymgysylltu â chymunedau i annog help, a'u cefnogi i gydweithio i gadw eu hunain yn ddiogel.
- **Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol –** Sicrhau bod yr Heddlu yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd effeithiol.
- **Darparu Gwasanaeth Effeithiol ac Effeithlon -** Sicrhau bod Heddlu Gwent a fy swyddfa yn sefydliad sy'n perfformio'n dda, yn gwerthfawrogi ein staff ac yn buddsoddi ynddynt i gyflawni gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau trawiadol sy'n bodloni anghenion pob cymuned.

Gellir gweld Cynllun llawn yr Heddlu a Throseddu yma.

## Bwrdd Cynllunio Ardal

Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent ar gamddefnyddio sylweddau yn gweithio ar draws rhanbarth Gwent i leihau achosion o gamddefnyddio sylweddau drwy gyfuniad o gamau addysg, atal, trin ac adsefydlu. Mae'r blaenoriaethau y mae'r bwrdd yn gweithio arnynt ar hyn o bryd wedi eu nosi isod a bydd y BPRh yn gweithio mewn partneriaeth i osgoi dyblygu a chreu elfen o synergedd ar draws y partneriaid.

**Blaenoriaethau:**

- Gwella hyfforddiant camddefnyddio sylweddau ar gyfer y gwasanaethau brys a dosbarthu Naloxone.
- Cynyddu atal alcohol o ran triniaeth ac addysg.
- Gwella camau atal sylfaenol yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ynghylch Isafbris Unedau (MUP).
- Gwasanaethau ar gyfer Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n mynd law yn llaw.
- Gwella'r dewis tai.
- Sicrhau cyllid ystadau cyfalaf (effaith ar y gwasanaeth a ddarperir wrth leihau).

## Y Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Sexual (VAWDASV)

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar atal materion, amddiffyn dioddefwyr a chefnogi'r rheini y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol mewn perthynas â'r materion hyn, a phenodi Ymgynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a mathau eraill o drais yn seiliedig ar ryw, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi strategaethau i gyfrannu at bwrpas y Ddeddf. Sefydlwyd Bwrdd VAWDASV ar gyfer De Ddwyrain Cymru a sefydlwyd tîm VAWDASV rhanbarthol i gynnig cefnogaeth.

***Mae'r Bwrdd wedi nodi sawl blaenoriaeth ranbarthol sy'n dod i'r amlwg a bydd y BPRh yn cefnogi gwaith Bwrdd VAWDASV i gyflawni'r canlyniadau gofynnol:***

- ***Blaenoriaeth Strategol 1:*** Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais tuag at fenywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Gwent.
- ***Blaenoriaeth Strategol 2:*** Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal, ac iach a bod unrhyw fath o gam-drin bob amser yn anghywir.
- ***Blaenoriaeth Strategol 3:*** Cynyddu ffocws ar ddwyn drwgweithredwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd i newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.
- ***Blaenoriaeth Strategol 4:*** Sicrhau bod atal ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth.
- ***Blaenoriaeth Strategol 5:*** Mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol, amserol ac mewn modd priodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
- ***Blaenoriaeth Strategol 6:*** Sicrhau bod dioddefwyr yn cael tegwch wrth ddefnyddio gwasanaethau ag adnoddau priodol, o ansawdd uchel, sy'n cael eu harwain gan yr angen, yn seiliedig ar gryfder ac yn ymatebol yn ôl rhyw, a hynny ledled yr ardal.

Bydd y Cynllun Ardal hefyd yn nodi'n union sut mae'n cyfrannu at Gynllun CTCI BIPAB, Cynlluniau Gwella Corfforaethol Awdurdodau Lleol, a 6 nod gofal brys cenedlaethol. Mae ein chwe nod ar gyfer gofal 'ar frys ac mewn argyfwng, isod:

1. Cydlynu, cynllunio a chefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o angen gofal ar frys neu mewn argyfwng
2. Cyfeirio at y lle cywir, y tro cyntaf
3. Cael hyd i opsiynau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle gorfod mynd i mewn i'r ysbyty
4. Ymateb brys mewn argyfwng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl
5. Y gofal gorau posibl ar ôl mynd i mewn i'r ysbyty
6. Ymagwedd 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod ail-ddychwelyd i'r ysbyty

## Atodiad 3: Dyfodol Clinigol BIPAB a System Llesiant Integredig

Uchelgais BIPAB yw creu system newydd o ofal sylfaenol, gofal cymunedol a lles ar draws Gwent, a hynny mewn partneriaeth â llywodraeth leol a'r trydydd sector. Eu nod yw galluogi pobl i gael y gofal sydd ei angen arnynt yn eu cymuned a'u cartrefi eu hunain, gan wella annibyniaeth a lles, ac osgoi'r angen i fynd i mewn i'r ysbyty heb angen. I wneud hyn bydd angen iddynt drawsnewid gwasanaethau mewn ffordd radical a datblygu modelau gofal newydd, yn y gymuned. Gweledigaeth BIPAB yw creu system o wasanaethau sylfaenol, cymunedol a llesiant, yn seiliedig ar ôl-troed y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (RhGC) , lle cynigir gwasanaeth rhanbarthol cyson a thimau amlddisgyblaeth lleol sy'n effeithiol. Datblygwyd fframwaith i nodi'r weledigaeth a datblygwyd rhaglen 5-mlynedd o 2018/19 i greu'r newid.

Dyma'r pedwar cam:

1. Cadw pobl yn iach
2. Hunanofal
3. Gofal Sylfaenol a Thîm RhGC
4. Hwb RhGC gyda gwasanaethau arbenigol a mwy o wasanaethau

Bydd BIPAB yn manteisio ar ganfyddiadau'r adolygiad Seneddol gan gydnabod y disgwyliadau sydd arnynt, sef gwasanaeth di-dor sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Bydd comisiynu mewn modd integredig a chyfres bendant o egwyddorion gwasanaeth yn sail i ddatblygu model RhGC sy'n gyson, ac yn cynnwys:

- Sefydlu gweledigaeth unedig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i Went gyfan
- Cynyddu cyflymder newid trawsnewidiol ac integreiddio
- Datblygu modelau newydd y mae egwyddorion gofal iechyd pwyllog a Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant yn sail iddynt


Mae'r system yn seiliedig ar y cytundeb a rennir gan yr adran Iechyd a Llywodraeth Leol i ddarparu mwy o ofal yn agosach at y cartref, er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal sylfaenol, ac osgoi gorfod mynd i mewn i'r ysbyty heb angen. Bydd y system yn ychwanegu at y camau arloesi sydd eisoes yn bodoli ledled Gwent, gan ddefnyddio ôl-troed RhGC fel man cychwyn i gynllunio a darparu gwasanaethau yn seiliedig ar fodel o lesiant cymunedol. I sbarduno'r camau hyn, mabwysiadwyd cyfres o 10 o gamau uchel eu heffaith i yrru newid. Maent yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth, datblygu llif mwy cynhyrchiol, a chreu model safonol o dimau amlddisgyblaeth. Gyda'i gilydd gellir trosi'r egwyddorion hyn yn gamau uchel eu heffaith yn cynnwys:

- Datblygu model newydd o ofal integredig sy'n seiliedig ar wella llesiant, yn seiliedig ar ôl troed RhGC/RhLll
- Datblygu camau gweithredol i gyfeirio drwy DEWIS (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) i rymuso dinasyddion i wneud eu dewisiadau am eu hanghenion gofal iechyd a'r camau i'w cymryd

- Mwy o weithio mewn partneriaeth i i ddarparu manyleb gyson ar gyfer RhGC ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn creu llwybr di-dor i wasanaethau cymunedol, lleol a hygyrch.
- Datblygu cyfuniad o sgiliau priodol o fewn gweithlu mwy modern ac integredig, sy'n cyd-fynd â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth.
- Gwella hunanofal drwy ragnodi cymdeithasol, a dulliau ymgynghori newydd yn unol ag egwyddorion gofal iechyd pwyllog.

Llwybrau pellach i sefydlu cyfrifoldebau gofal eilaidd a gofal sylfaenol a gwella arweinyddiaeth yn y maes gofal sylfaenol, yn enwedig ar gyfer cyflyrau cronig. Canlyniadau arfaethedig ar gyfer System Integredig BIPAB:

- Caiff pobl eu cydnabod yn gynnar os oes angen gofal neu gefnogaeth arnynt, ac eir ati i'w hatal rhag cael salwch neu atal dirywiad o ran eu lles lle bynnag y bo modd
- Gwell gallu yn y gymuned i gefnogi ymddygiadau iechyd gwell
- Lleihau achosion lle mae'n rhaid mynd i mewn i'r ysbyty heb angen, drwy integreiddio capasiti yn y gymuned i fod yn ymatebol a hygyrch
- Llwybr gofal di-dor i gleifion, drwy integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, y ddarpariaeth iechyd a'r trydydd sector ar lefel leol
- Gwella rhannu gwybodaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol



**Atodiad 4: Gweithrediad Rheoli Perfformiad/Llif y Broses**

| PARTNERIAETHAU STRATEGOL | |
|---|---|
| O SAFBWYNT ARWEINIOL → | ALLBYNNAU |
| ➢ Datblygu adrannau AAB<br>➢ Cyflawni/monitro'r Cynllun Ardal<br>➢ Craffu ar y GIR ar lefel partneriaeth<br>➢ Datblygu cofrestr risg<br>➢ Sicrhau cyd-gynhyrchu | ➢ Cynllun Ardal a chofrestr risg wedi'u diweddaru<br>➢ Cyfleu arfer gorau/materion sydd angen eu clirio<br>➢ Llunio adroddiadau statudol/ cenedlaethol |

| GRŴP ARWEINYDDIAETH | |
|---|---|
| O SAFBWYNT ARWEINIOL → | ALLBYNNAU |
| ➢ Cymeradwyo'r templed Cynllun Ardal<br>➢ Diweddariad ar yr eitem sefydlog gan bob Partneriaeth Strategol<br>➢ Craffu ar gyllid grant<br>➢ Canfod cysylltiadau trawsbynciol ar draws y partneriaethau strategol<br>➢ Datblygu a rhoi strategaeth Cyfathrebu ar waith | ➢ Cysylltiadau â chynlluniau/cyllid eraill<br>➢ Adolygu cofrestri risg y Partneriaethau Strategol<br>➢ Cymeradwyo adroddiadau Partneriaethau Strategol i'w hystyried gan y BPRh |

| BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL | |
|---|---|
| PRIF DRAFODAETHAU → | PENDERFYNIAD |
| ➢ Craffu'r Partneriaethau Strategol yn cynnwys y Cynllun Ardal – eitem sefydlog a Chadeiryddion i gyflwyno yng nghyfarfod y BPRh<br>➢ Cymeradwyo Cofrestr Risg y Bartneriaeth (Cynllun Ardal a chyllid) | ➢ Cymeradwyo'r AAB/ASF<br>➢ Cymeradwyo'r Cynllun Ardal<br>➢ Cymeradwyo GIR/cyllid grant<br>➢ Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol<br>➢ Cymeradwyo'r adroddiadau statudol |

| | |
|---|---|
| ➢ Canfod unrhyw faterion eraill y tu hwnt i'r swyddogaethau statudol | ➢ Cymeradwyo cynllun dirprwyo ar gyfer Partneriaethau Strategol |

**Atodiad 5: Egwyddorion Gweithio, Cynlluniau Gweithredu ac Acronymau**

| Acronym (Saesneg mewn cromfachau) | Disgrifiad Llawn |
|---|---|
| **BIPAB (ABUHB)** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **PNYP (ACE)** | Profiad Niweidiol yn ystod plentyndod |
| **BCA (APB)** | Bwrdd Cynllunio Ardal |
| **ASA(ASD)** | Anhwylder Sbectrwm Awtistig |
| **GLIE (BME)** | Grŵp Lleiafrifoedd Ethnig Du |
| **CAMHS** | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| **BPPaTh (CFPB)** | Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd |
| **PaPhI (CYP)** | Plant a Phobl Ifanc |
| **DEWIS** | Gwefan genedlaethol |
| **CMGG (GAVO)** | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent |
| **YMAG (GNME)** | Ymarfer Mapio Anghenion Gwent |
| **S+Th (G+T)** | Sipsiwn a Theithwyr |
| **AI (IA)** | Asesiad Integredig |
| **GCC (IAA)** | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth |
| **GGC (ICF)** | Y Gronfa Gofal Canolraddol |
| **ISCAN** | Gwasanaethau Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol |
| **LHDTh (LGBT)** | Y Gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol |
| **GGGC (LVSW)** | Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru |
| **BCC (NCB)** | Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol |
| **RhGC (NCN)** | Y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth |
| **MA (NGO)** | Mudiad Anllywodraethol |
| **GCRhT (NOMS)** | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| **ADDaLl (PMLD)** | Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog |
| **AAB (PNA)** | Asesiad o Anghenion y Boblogaeth |
| **BGC (PSB)** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **ASO (PTSD)** | Anhwylder Straen Ôl-drawmatig |
| **BPRh (RPB)** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **PCRh (RCC)** | Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol |
| **GCRh (RJCG)** | Grŵp Cydgomisiynu Rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| **SRhGY (SIMS)** | System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion |
| **ALlIaCh (SLCN)** | Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu |
| **CGT (TVA)** | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen |
| **VAWDASV** | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin-domestig a Thrais Rhywiol |
| **ThC (VT)** | Therapydd Cyn-filwyr |
| **AsLl (WBA)** | Asesiad Llesiant |
| **WCCIS** | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru |
| **DLlCD (WFG)** | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| **BCI(YJB)** | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| **GTI (YOS)** | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid |

## Atodiad 6: Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019- Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Mae Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 yn diwygio Deddf Galluedd Meddyliol 2005, trwy gyflwyno proses gyfreithiol newydd sy'n cydnabod y gall gofal a chefnogaeth ddigwydd yn unrhyw le, trwy amddiffyn pobl sydd heb y gallu i ganiatáu i'w gofal neu eu triniaeth, ble bynnag y maen nhw'n byw neu'n derbyn gofal. Yn y pen darw, mi fydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cymryd lle'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid gyda Threfniadau Amddiffyn Rhyddid gan roi'r cyfrifoldebau ar Gynghorau Lleol a Byrddau Iechyd.

Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- Perthnasol i bobl 16+ yn dilyn asesiad, ystyrir nad oes ganddynt y gallu i ganiatáu eu gofal neu'u triniaeth eu hunain, pan fydd y gofal neu'r driniaeth yn golygu colli rhyddid
- Gall y caniatâd fod yn unrhyw le, lle mae'r unigolyn hwnnw'n derbyn gofal neu driniaeth sy'n gyfystyr â cholli rhyddid, gan gynnwys eu cartref eu hunain, sefydliad addysgol, lleoliad seibiant, canolfan ddydd.
- Mae rôl newydd, sef Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn cymryd lle'r Asesydd Lles Pennaf
- Cyflwynir rôl newydd sef yr Unigolyn Priodol, ac mae'n cymryd lle Cynghorau sy'n Cynrychioli Unigolion Priodol a bydd Byrddau Iechyd yn cael eu hadnabod fel Cyrff sy'n Gyfrifol
- Integreiddio'r TARh yn yr asesiadau/arfer cynllunio sy'n bodoli - hyrwyddo egwyddorion yr MCA yn rhan o arfer craidd

Mae paratoi ar gyfer y camau gweithredu yn rhan hollbwysig o'r broses i sicrhau bod y trawsnewid yn digwydd mor llyfn ac effeithlon a phosibl. Mae hyn yn helpu i leihau'r effaith ar ein dinasyddion a'r gweithlu, wrth ddarparu cyfleoedd allweddol iddynt ddylanwadu ar y camau gweithredu ledled Gwent. Mae cynghorau lleol Casnewydd, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Caerffili, a Thorfaen ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio mewn partneriaeth i ystyried sut y gellir rhoi'r newid hwn ar waith ledled Gwent, a mynd i'r afael â'r angen i gefnogi'r gweithlu yn ogystal â'r bobl yn ein cymunedau, mewn modd priodol.

Yn bwysicaf oll, bydd y Ddeddf yn sicrhau bod y cyrff sydd â chyfrifoldeb yn cymhwyso egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn y materion craidd, i ddiogelu hawliau'r bobl sy'n derbyn cefnogaeth. A'u bod yn derbyn y trefniadau diogelu sy'n ddyledus iddynt, drwy eu grymuso wrth wraidd y penderfyniadau a wneir i gefnogi eu hanghenion a darparu llwybr gofal di-dor.

Bydd gweithredu'n llwyddiannus yng Ngwent yn golygu:

- Deall a bodloni ein rhwymedigaeth o ran ein dyletswydd statudol yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ar draws Gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, darparwyr sy'n cael eu comisiynu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Codi ymwybyddiaeth ar draws y gwasanaethau y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cael ei ymwreiddio yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu
- Cefnogi a datblygu gweithlu medrus a chymwys wrth gymhwyso'r DGM a'r fframwaith cyfreithiol newydd yn dilyn y camau gweithredu
- Parhau i weithio tuag at hyfforddiant cynaliadwy y gellir ei ddarparu ar draws y sectorau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol sydd â rolau a chyfrifoldebau amrywiol
- Adeiladu ar gysondeb ac atgyfnerthu cefnogaeth sy'n seiliedig ar ymarfer yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Defnyddio'r cyfle i wella'r broses a'r gweithdrefnau presennol i gefnogi integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol
- Cefnogi gwytnwch yn y sector
- Canfod cyfleoedd i integreiddio'r ymarfer presennol i gydymffurfio â'r fframwaith newydd
- Cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i ganfod amcanion a rennir i gyflawni canlyniadau gwell i'r bobl yr ydym yr ydym yn eu cefnogi
- Annog ymgysylltu â'r gweithlu a dinasyddion, i wrando a dysgu o brofiadau
- Darparu gwybodaeth hygyrch a pherthnasol i fodloni anghenion dinasyddion a'r gweithlu
- Cyngor, cefnogaeth a chynorthwywyr sy'n ystyried demograffeg poblogaeth Gwent, yn cynnwys ystyried anghenion, diwylliant a chefndir.

Newid, gwella a chyflawni oedd y tri gair allweddol yng Nghynllun Ardal 2018. Mae'r newid yn y Ddeddf yn rhoi cyfle i ni fanteisio ar hyn drwy roi'r gweithlu a'r bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth wrth wraidd y cynllunio a'r camau gweithredu.

Mae mwy o wybodaeth am Y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yma.

Gellir dod o hyd i Newidiadau i God Ymarfer MCA a chamau gweithredu'r TARh yma.

**Atodiad 7: Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol a Mesur Canlyniadau**

Mae'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn dangos a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni ac yn darparu mesur o les pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i adeiladu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n partneriaid yn y sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector ac yn atgyfnerthu hyn. Gwneir hyn drwy adeiladu ar gryfderau pobl a'u gallu, a'u galluogi i barhau i fod yn annibynnol a gwireddu eu nodau personol. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfres o ganlyniadau llesiant cenedlaethol y dylai'r grwpiau hyn eu disgwyl er mwyn byw bywydau llawn a boddhaus. Maent wedi eu nodi yn y tabl isod:


| Yr Hyn y Mae Llesiant yn ei Olygu | Canlyniadau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|
| **Sicrhau Hawliau i oedolion: Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd** | Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn defnyddio'r rhain i helpu fy lles.<br><br>Gallaf gael hyd i'r wybodaeth iawn pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd yr wyf ei hagen ac rwy'n ei defnyddio i reoli a gwella fy lles.<br><br>Rwy'n cael fy nhrin ag urddas a pharch ac yn trin eraill yr un fath.<br><br>Clywir a gwrandewir ar fy llais.<br><br>Ystyrir fy amgylchiadau unigol.<br><br>Dwi'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gen i rywun sy'n gallu ei wneud drosof |
| **Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol. Hefyd i blant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol, ac ymddygiadol** | Rwy'n iach ac yn actif ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach. Rwy'n hapus ac yn gwneud y pethau sy'n fy ngwneud i'n hapus. Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth iawn, a hynny mor gynnar â phosib. |
| **Amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod** | Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag cael fy ngham-drin a fy esgeuluso. Rwy'n cael fy nghefnogi i amddiffyn y |

| | |
|---|---|
| | bobl sydd yn bwysig i mi rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Rwy'n gwybod sut i gyfleu fy mhryderon. |
| **Addysg, hyfforddiant, a hamdden** | Gallaf ddysgu a datblygu i gyflawni fy mhotensial. Rwy'n gwneud pethau sydd o bwys i mi. |
| **Perthnasoedd teuluol a phersonol** | Rwy'n perthyn. Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau. |
| **Cyfrannu at gymdeithas** | Rwy'n cymryd rhan yn fy nghymuned ac yn cyfrannu ati. Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas. |
| **Llesiant cymdeithasol ac economaidd. Hefyd i oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith** | Cyfrannaf at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl o fy newis. Nid wyf yn byw mewn tlodi. Rwy'n cael cefnogaeth i weithio. Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen i dyfu i fyny a bod yn annibynnol. Rwy'n cael gofal a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os ydwyf ei angen. |
| **Lle priodol i fyw** | Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi yn y ffordd orau i fodloni fy lles. |

Bydd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn parhau i gefnogi mesurau perfformiad penodol a nodwyd yn rhanbarth Gwent, i'n helpu i fonitro cynnydd a pharhau i addasu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd BPRh Gwent yn cysoni gwaith y partneriaethau strategol gyda'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal cymdeithasol a argymhellir gan ar gyfer Cymru Iachach. Mi fydd yn dangos sut mae gweithio'n integredig wedi cyfrannu at iechyd a lles y boblogaeth gyfan. Mi fydd hefyd yn cyfrannu at nodau: Cymru Iachach; Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn rhoi fframwaith i bob partner integredig, i'w galluogi i adolygu a rhoi blaenoriaeth i'w rhaglenni a'u gweithgareddau fel eu bod yn symud ymlaen â'r pethau sy'n bwysig. Mi fydd yn mesur cynnydd y system gyfan fel y gallwn ddeall pa mor effeithiol yw camau'r partneriaid.

Bydd pob partneriaeth strategol yn tynnu sylw at ble yn union y mae'r camau gweithredu yn cyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol, ac yn adolygu'r data yn rheolaidd i lywio'r ymarfer a diweddaru'r cynlluniau gweithredu.




Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Drafft
1. Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth
2. Pwysau geni iach
3.Ymddygiadau bywyd iach
4.Atal pobl rhag teimlo'n unig
5. Mae gan bobl les meddyliol cadarnhaol
6. Mae plant yn rhydd o glefydau/pydredd dannedd
7.Cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd
8.Mae pobl o bwysau iach
9.Atal pobl rhag marw oherwydd camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol)
10.Cefnogi pobl sy'n dioddef o gyflwr hirdymor i fynd ati i weithio
11.Mae gan bobl lety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion
12.Amddiffyn oedolion rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
13.Atal pobl hŷn rhag cwympo